Pecyn Dogfennau Cyhoeddus

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

**Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

Dydd Llun, 24 Medi 2018 at 2.00 pm
Siambr y Cyngor - Bodlondeb, Conwy

# RHAGLEN

1. **Ymddiheuriadau am absenoldeb**

2. **Datgan cysylltiad: Cod Ymddygiad Llywodraeth Leol**

   Caiff yr Aelodau eu hatgoffa bod yn rhaid iddynt ddatgan **bodolaeth** a **natur** eu cysylltiadau personol.

3. **Materion Brys**

   Rhybudd o faterion a ddylai, ym marn y Cadeirydd, gael eu hystyried yn y cyfarfod fel rhai brys yn unol ag Adran 100B(4) Deddf Llywodraeth Leol 1972.

4. **Cyhoeddiadau gan y Cadeirydd**

5. **Cyflwyniad ar y Portffolio Plismona Digidol gan Geraint Jones (Arweinydd Ymgysylltu Busnes, Heddlu Sussex)**

6. **Cyflwyniad ar y Fframwaith Gomisiynu gan Diane Jones (Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd)**

7. **Cofnodion** (Tudalennau 1 - 11)

   Cymeradwyo a llofnodi cofnodion y cyfarfod diwethaf fel cofnod cywir

8. **Eitemau Sefydlog ar y Rhaglen**

   **a)** Diweddariad ar gamau gweithredu o’r cyfarfod blaenorol

   **b)** Cwestiynau i’r Comisiynydd Heddlu a Throsedd (Tudalen 12)

   *(Cyflwynwyd yn unol â’r weithdrefn ar gyfer Cwestiynau i Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd)*

   **c)** Adborth gan Aelodau sy’n Gefnogwyr

CONWY
CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
COUNTY BOROUGH COUNCIL

9. **Ystyried adroddiadau gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru**

   **a)** Diweddariad Cyfnodol gan Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 13 - 35)

   **b)** Y wybodaeth ddiweddaraf am Gyllideb 2018/19 (ar 31 Gorffennaf 2018) (Tudalennau 36 - 40)

10. **Ystyried adroddiadau gan yr Awdurdod Cynnal**

   **a)** Crynodeb o'r Cwynion a Gafwyd (Tudalennau 41 - 44)

   **b)** Ystyried Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (Tudalennau 45 - 46)

11. **Dyddiad y cyfarfod nesaf:**

   Dydd Llun, 3 Rhagfyr 2018 @ 2,00 pm

Aelodau'r Panel

| | |
|---|---|
| Cyng Chris Bithell | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Dana Davies | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |
| Cyng Julie Fallon (Cadeirydd) | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Alan Hunter | Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy |
| Cyng Hugh Irving | Cyngor Sir Ddinbych |
| Cyng Eric Jones | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Neville Phillips OBE Y.H. | Cyngor Sir y Fflint |
| Cyng Peter Read | Cyngor Gwynedd |
| Cyng Dylan Rees | Cyngor Sir Ynys Mon |
| Cyng Nigel Williams | Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam |

| | |
|---|---|
| Pat Astbury (Is-Gadeirydd) | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| Matthew Forbes | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |
| William John Williams | Aelod Annibynnol Cyfetholedig |

Sylwer: mae'n bosibl y bydd y cyfarfod hwn yn cael ei ffilmio i'w ddarlledu'n fyw neu'n ddiweddarach ar wefan Panel yr Heddlu a Throsedd - ar ddechrau'r cyfarfod, bydd y Cadeirydd yn cadarnhau a fydd y cyfarfod cyfan neu ran ohono'n cael ei ffilmio. Gallai'r lluniau a'r recordiad sain gael eu defnyddio at ddibenion hyfforddi.

Yn gyffredinol, nid yw'r mannau eistedd cyhoeddus yn cael eu ffilmio. Fodd bynnag, drwy fynd i'r ystafell gyfarfod a defnyddio'r mannau eistedd cyhoeddus, rydych yn cydsynio i gael eich ffilmio a'r posibilrwydd y bydd y lluniau a'r recordiadau sain hynny'n cael eu defnyddio at ddibenion gweddarlledu a / neu hyfforddiant.

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

Dydd Llun, 4 Mehefin 2018, am 2.00 pm
Siambr y Cyngor - Bodlondeb, Conwy

| | |
|---|---|
| YN BRESENNOL: | Y Cynghorydd Julie Fallon (Cadeirydd) |
| | Y Cynghorwyr: Dana Davies, Alan Hunter, Hugh Irving, Eric Jones, Neville Phillips, Dylan Rees, a Nigel Williams |
| Aelod Annibynnol Cyfetholedig: | Pat Astbury a John Williams |
| Swyddogion: | Dawn Hughes (Uwch Swyddog Cefnogi) a Richard Jarvis (Swyddog Arweiniol / Cynghorydd Cyfreithiol) |
| Hefyd yn bresennol: | Ann Griffith (Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Stephen Hughes (Prif Weithredwr – Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Kate Jackson (Prif Swyddog Cyllid – Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Arfon Jones (Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd), Y Prif Gwnstabl Mark Polin (Heddlu Gogledd Cymru). |

1. **PENODI CADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid enwebu'r Cyng. Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) yn Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2018/19.

**PENDERFYNWYD -**

**Ail benodi'r Cyng. Julie Fallon yn Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2018/19.**

2. **PENODI IS-GADEIRYDD**

Cynigiwyd ac eiliwyd y dylid enwebu Pat Astbury (Aelod Annibynnol Cyfetholedig) fel Is-Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2018/19.

**PENDERFYNWYD -**

**Ail-benodi Pat Astbury yn Is-Gadeirydd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2018/19.**

3. **YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB**

Derbyniwyd ymddiheuriadau am absenoldeb gan y Cynghorydd Chris Bithell (Cyngor Sir Y Fflint), Mathew Forbes (Aelod Annibynnol Cyfetholedig) a'r Cynghorydd Peter Read (Cyngor Gwynedd).

4. **DATGAN CYSYLLTIAD: COD YMDDYGIAD LLYWODRAETH LEOL**

Datganodd y Cynghorydd Julie Fallon (Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy) gysylltiad personol, gan fod ei gŵr yn Swyddog yr Heddlu gyda Heddlu Gogledd Cymru.

5. **MATERION BRYS**

Dim.

6. **CYHOEDDIADAU GAN Y CADEIRYDD**

Dim.

7. **DIWEDDARIAD GAN Y PRIF GWNSTABL (MR. MARK POLIN), HEDDLU GOGLEDD CYMRU**

Derbyniodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gyflwyniad gan y Prif Gwnstabl (Mr  Mark Polin), Heddlu Gogledd Cymru, oedd yn ymwneud â'r pynciau canlynol:

<u>Amcanion a blaenoriaethau Plismona</u>

- Mae Cynllun yr Heddlu a Throsedd yn nodi'r cyfeiriad strategol ar gyfer Gogledd Cymru.
- Mae cynllun cyflawni Gogledd Cymru yn nodi'r blaenoriaethau mewn mwy o fanylder a beth yw'r dyheadau dros gyfnod y Cynllun.
- Canolbwyntio ar: Breguster; Hyder cyhoeddus, triniaeth a bodlonrwydd; Annog adrodd am a chofnodi moesegol; Disgresiwn – parhad gwarediadau; ac Anfodlonrwydd ac adfer gwasanaeth
- Diwylliant: Un Tîm; uniondeb; deall sut roedd y gweithlu yn teimlo ac ymateb; iechyd a lles; a bod yn broffesiynol a safonau ymddygiad

<u>Perfformiad</u>

- Roedd cynnydd mewn trosedd a gofnodwyd i 69.1 o droseddau i bob 1000 o boblogaeth yng Ngogledd Cymru.
- Cwympodd y safle cenedlaethol ddau le i 15fed allan o'r 42 o luoedd. Gyda'r Grŵp Lluoedd Mwyaf Tebyg (MSG), cwympodd Gogledd Cymru i'r 6ed o'r 8 llu, ond arhosodd yn 2il yng Nghymru. Newid o ran canran yn yr holl droseddau a gofnodwyd (Rhagfyr 2016 – Rhagfyr 2017):
  - Dangosodd Gogledd Cymru gynnydd o 18.1% dros y categorïau o droseddau a gofnodwyd yn y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2017.
  - Parhaodd difrifoldeb troseddau i gynyddu o'i gymharu â lefelau trosedd, er bod hyn yn unol ac yn dilyn patrwm Cymru a Lloegr.
- Heddlu'n Ymdrin â Phryderon:
  - Gwelodd barn am sut mae'r Heddlu'n ymdrin â phryderon Heddlu Gogledd Cymru yn codi 5 lle i'r 8fed yn genedlaethol, gan symud i fyny o 63.8% ar gyfer y 12 mis hyd at fis Medi 2017 i 65.8% ar gyfer y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2017. Roedd y Llu

yn parhau i fod yn 2il yn ei MSG a symudodd i'r 2il yng Nghymru.

- Troseddau Yn Y Cartref:
  - Arhosodd y risg o droseddau yn y cartref yng Ngogledd Cymru ar 6.3%; cwympodd HGC i'r 5ed safle yn genedlaethol, ond arhosodd yn 1af yn ei MSG ac yn 1af yng Nghymru
- Triniaeth Deg:
  - Roedd nifer y bobl oedd yn nodi eu bod yn credu bod yr heddlu yn trin pobl yn deg wedi gwella o 73.8% yn y 12 mis hyd at fis Medi 2017 i 74.6% yn y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2017.
- Arolwg Hyder y Cyhoedd – comisiynodd HGC a Chomisiynydd yr Heddlu a Throsedd arolwg hyder y cyhoedd ymysg trigolion Gogledd Cymru:
  - Roedd gan 91% o drigolion hyder yn HGC.
  - Cytunodd 92% o drigolion bod yr heddlu yn eu trin â pharch.
  - Yn ogystal â hynny, roedd bodlonrwydd ymysg y rheiny oedd wedi bod â chyswllt â HGC wedi cynyddu ers sawl mis bellach ac roedd HGC yn cymharu'n dda gyda'r 43 llu arall yng Nghymru a Lloegr.
- Roedd HGC yn delio gyda bygythiadau mwy difrifol, fel terfysgaeth, seiberdroseddu, caethwasiaeth fodern, camfanteisio'n rhywiol ar blant a thrais domestig. Roedd delio cyffuriau drwy Linellau Sirol hefyd yn fygythiad mawr i Ogledd Cymru, gyda throseddwyr yn targedu plant ac oedolion diamddiffyn i gludo a gwerthu cyffuriau; roedd y Prif Gwnstabl yn adolygu adnoddau er mwyn ymdrin â'r broblem gynyddol hon.

<u>Datblygiadau Sefydliadol</u>

- Cynllunio Seilwaith:
  - Roedd y cylch cynllunio a chyllido wedi ei osod.
  - Rhaglen arbed arian yn ei lle, yno gystal â mwy o ganolbwyntio ar 'ymwybyddiaeth o gost'.
  - Gwaith cynllunio seilwaith yn mynd rhagddo yn dda, gan gynnwys: Ystadau; Digidol/ TG a'r Gweithlu.
- Strategaeth Ystadau: Mae rhaglenni penodol sy'n effeithio amseru ac arbedion posib yn ystod bywyd y Strategaeth Ystadau yn cynnwys y Rhaglen Alluogi Ddigidol, Rhaglen Gwelliant Gweithredol; a'r Rhaglen Cydweithio a Newid.
- Diwygio Digidol: Awgrymodd y Prif Gwnstabl bod y Panel yn derbyn cyflwyniad ar y rhaglen drawsnewid digidol, oedd yn cynnwys cyswllt digidol â'r cyhoedd, ymchwilio digidol ac adrodd digidol, a fyddai'n newid y ffordd y byddai'r cyhoedd yn cysylltu â'r heddlu yn llwyr.
- Trawsnewid y Gweithlu: Byddai angen i'r Lluoedd weithio mewn ffyrdd gwahanol iawn e.e. byddai angen prosesau caffael newydd a gweithio mewn partneriaeth gyda Sefydliadau Addysg Uwch er mwyn cyflwyno Fframwaith Cymwysterau Addysg yr Heddlu.
- Ardoll Brentisiaethau: Dim ond 8% o gostau hyfforddi oedd yn rhaid i Luoedd Lloegr eu cwrdd, gyda'r ardoll brentisiaethau yn talu am y

gweddill, tra roedd rhaid i luoedd yng Nghymru wynebu talu 95% - 100% o'u cyllidebau eu hunain.

- Nod y Rhaglen Gweithredol Gweithredol oedd ail archwilio model gweithredu'r Llu er mwyn sicrhau ei fod mor effeithiol ac effeithlon â phosib, o ystyried y targed arbedion o £4.6 miliwn
- Prosiect Profiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod: Ymateb system gyfan i freguster drwy weithredu dulliau gweithredu sy'n rhoi gwybod am Brofiadau Niweidiol yn Ystod Plentyndod ar gyfer plismona gweithredol a phartneriaid allweddol.

<u>Galw</u>

- Yn gynyddol roedd y galw ar yr heddlu yn dod gan asiantaethau eraill yn hytrach na gan drosedd; roedd y galw mwyaf gan y rheiny oedd angen asesiad seiciatryddol. Roedd HGC wedi nodi cynnydd sylweddol digyffelyb yn y galw am y defnydd o'i Drafodwyr Heddlu mewn digwyddiadau oedd yn cynnwys pobl gyda problemau iechyd meddwl.
- Eleni'n unig mae'n trafodwyr wedi eu galw allan i 150 o ddigwyddiadau lle bu iddynt ymyrryd mewn digwyddiadau hunanladdiad, roedd yr holl ddigwyddiadau'n cynnwys pobl oedd yn dioddef gyda iechyd meddwl.

- Cynllun Trawsnewid Iechyd Meddwl: Nodwyd elfennau o'r Cynllun Trawsnewid Iechyd Meddwl fel bod yn allweddol i ostwng daliadau A.136 a'r argyfwng Iechyd Meddwl yng Ngogledd Cymru.
- Oedi mewn amseroedd ymateb ambiwlansys a'r effaith mae hyn wedi ei gael ar HGC.
- Lleihau galw gan alwyr cyson.
- Llwyddiant Cydweithio: Er i swyddogion yr heddlu gychwyn adrodd yn uniongyrchol i ystafell reoli WAST, mae'r nifer o ddigwyddiadau anffafriol wedi gostwng. Yn ogystal â hyn, roedd cyflwyno clinigwyr i'r JCC wedi gwella cyfathrebu a chydweithio deinamig yn sylweddol.

Rhoddodd y Prif Gwnstabl wybod i'r Panel hefyd am y cryfderau a'r heriau sydd o'n blaenau, sy'n cynnwys cynnal momentwm yn wyneb galw cynyddol a chyfyngiadau ariannol.

Yn ogystal a hynny cafodd y Panel wybod y byddai'r Dirprwy Brif Gwnstabl Gareth Pritchard yn cymryd drosodd ar ôl i'r Prif Gwnstabl presennol (Mr Mark Polin) adael, hyd nes y byddai penodiad newydd yn cael ei wneud, ac y byddai'n cael ei gefnogi gan y Prif Gwnstabl Cynorthwyol Richard Debicki a fyddai'n Ddirprwy Brif Gwnstabl Dros Dro.

Diolchodd y Panel i'r Prif Gwnstabl am gyflwyniad llawn gwybodaeth ac aeth ymlaen i drafod y materion canlynol:

- Adnoddau a rennir gydag Awdurdodau Lleol:
  - Eglurodd y Prif Gwnstabl bod cynllun peilot wedi ei gynnal gyda Chyngor Sir Ddinbych, ond nad oedd y Cyngor wedi ei symud ymlaen ymhellach; mae'n bosib y byddai cyfleoedd cydweithredol pellach yn codi o gyflwyno'r llwyfan digidol newydd.

- Ardoll Brentisiaethau
    - Cytunodd Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd i roi diweddariad i'r Panel ar y sefyllfa gyda'r Ardoll Brentisiaethau a'r Heddluoedd yng Nghymru yn y cyfarfod nesaf.
- Yr angen i edrych ar opsiynau brysbennu eraill i leihau'r galw ar yr Heddlu, y Gwasanaeth Ambiwlans ac Adrannau Brys Ysbytai.
- Cynnal Swyddogion Arfau
- Recriwtio Swyddogion CID a phlismona rheng flaen
    - Eglurodd y Prif Gwnstabl bod darn o waith yn cael ei wneud sy'n edrych ar freguster o ran troseddu yng nghyd-destun plismona cymdogaeth, a lle oedd y galw, a'r dulliau gwahanol o ymchwilio.
    - Fel mae difrifoldeb troseddau yn parhau i gynyddu a phroblem gynyddol Grŵpiau Troseddau Cyfundrefnol Llinellau Sirol, roedd her sylweddol o ran cydbwyso adnoddau ymchwilio a phlismona rheng flaen, ynghyd â chyd-destun dod o hyd i arbedion sylweddol.
    - Dywedodd y Panel bod Heddlu Norfolk wedi buddsoddi mewn Swyddogion yr Heddlu yn hytrach nac mewn Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu.

Gofynnodd y Cadeirydd a oedd y blaenoriaethau cywir yng Nghynllun Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Mewn ymateb, dywedodd y Prif Gwnstabl bod y blaenoriaethau cywir ynddo, a'u bod yn annhebygol o newid yn y dyfodol, fodd bynnag roedd yn rhaid canolbwyntio ar weithio mewn partneriaeth.

Diolchodd y Panel Heddlu a Throsedd i Mr Polin am ei wasanaeth gyda Heddlu Gogledd Cymru a dymunwyd yn dda iddo yn ei swydd newydd fel Prif Weithredwr Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr.

8. **COFNODION**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2018 i'w cymeradwyo.

**PENDERFYNWYD -**

**Cymeradwyo cofnodion cyfarfod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru a gynhaliwyd ar 12 Ebrill 2018.**

9. **DIWEDDARIAD AR GAMAU GWEITHREDU O'R CYFARFOD BLAENOROL**

Rhoddodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (CHTh) ddiweddariad ar gam gweithredu o'r cyfarfod blaenorol:

Cofnod 54 – Ystadegau Troseddu Treisgar: Dywedodd y CHTh y byddai'r ystadegau yn cael eu darparu yn y cyfarfod nesaf o ran y nifer o ddioddefwyr, y nifer o droseddau a gofnodwyd yn erbyn y dioddefwr, a'r canlyniad.

O ran (b) dywedodd y CHTh na fyddai'n gallu rhoi gwybodaeth ar faint o amser roedd Swyddogion yn ei dreulio ar droseddu treisgar, gan y byddai hyn yn rhoi gormod o bwysau ar adnoddau.

10. **CWESTIYNAU I'R COMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD**

Yn unol â'r Protocol ar gyfer Cwestiynau i'r Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, roedd aelod o'r Panel Heddlu a Throsedd (y Cynghorydd Chris Bithell) wedi cyflwyno'r cwestiynau canlynol, ac fe ymatebodd y Comisiynydd iddynt fel a ganlyn:

1. Mewn erthygl yn y Sunday Times (25/03/18), mynegwyd pryder am fethiant yr Heddlu Metropolitanaidd wrth rannu gwybodaeth ynghylch plant dan fygythiad i asiantaethau eraill, megis y gwasanaethau plant, yn groes i argymhellion cryf adroddiadau o bwys yn dilyn ymchwiliadau Babi P a Victoria Climbe.
2. Honnir fod y methiant hwn i raddau helaeth oherwydd pryderon am dorri cyfreithiau diogelu data a bod y llu felly'n rhoi hawliau pedoffiliaid i breifatrwydd o flaen diogelwch a lles plant.
   All y Panel a chyhoedd Gogledd Cymru fod yn sicr fod Heddlu Gogledd Cymru yn cyflawni ei ddyletswydd wrth gofnodi a rhannu gwybodaeth mor hanfodol yn rheolaidd a phrydlon gydag asiantaethau perthnasol ac yn gwneud y cyfan y gall i sicrhau fod amddiffyn, lles a diogelwch plant o'r pwys mwyaf?

*Ateb:*

1. *Mae rhannu gwybodaeth gyda phartneriaid yn cael ei gefnogi a'i ategu drwy amrywiol ddarnau o ddeddfwriaeth.*

   *Ym mis Tachwedd 2016 creodd Heddlu Gogledd Cymru Uned Atgyfeirio Ganolog gyda gweledigaeth i ddarparu ymateb effeithiol a anelwyd at amddiffyn plant, pobl ifanc ac oedolion diamddiffyn rhag niwed. Mae'r cysyniad wedi profi'n hynod fuddiol ac nawr yn cael ei ymgorffori o fewn ein sefydliad, gan gyflawni proses cwbl gyson a llyfn mewn perthynas â gwneud penderfyniadau amserol ynghyd â rhannu gwybodaeth briodol gyda'n hasiantaethau partner.*

   *Mae atgyfeiriadau'n cael eu hasesu a'u hymchwilio yn dilyn dull safonol sydd wedi gwella'r broses gwneud penderfyniad mewn perthynas â nodi a rheoli risg yn sylweddol. Lle mae'n ymwneud â phlant a materion diogelu yn cael eu nodi, mae'r wybodaeth hon <u>bob amser</u> yn cael ei rhannu gyda'r asiantaethau partner priodol – nid oes unrhyw beth yn gwrthwneud lles a diogelwch plant. Nid yw rhannu gwybodaeth o'r fath wedi'i ynysu i gam-drin plant yn rhywiol fel yr amlinellwyd yn yr ymholiad gwreiddiol, ond yn gyfannol lle mae mater diogelu yn cael ei nodi.*

3. Nododd erthygl yn yr un rhifyn o'r Sunday Times (25/03/18) bryderon am fethiant Llywodraeth y DU i gadw ei addewid i

hyfforddi 1000 o swyddogion heddlu arfog erbyn mis Mawrth 2018 yn dilyn yr ymosodiadau terfysgaidd ym Mharis a Brwsel yn 2015 a 2016 ac a ail-adroddwyd yn dilyn yr ymosodiadau terfysgaidd yn Westminster, Manceinion a London Bridge.

4. Yn ôl y sôn, dim ond 650 o swyddogion mae penaethiaid yr Heddlu wedi llwyddo i'w perswadio i hyfforddi i fod ag arfau. Beth yw'r sefyllfa bresennol yn Heddlu Gogledd Cymru ynghylch y nifer o swyddogion arfog a hyfforddwyd a'u gallu i fedru delio'n brydlon ac yn effeithlon gydag ymosodiad terfysgaidd yn y rhanbarth os byddai un yn digwydd?

*Ateb*

2. *Yn 2014 ymunodd Gogledd Cymru a Swydd Gaer mewn cytundeb ar y cyd a chreu cynghrair plismona arfog ar y cyd.*
3. *Mae gan y Gynghrair y capasiti ar hyn o bryd o ran y nifer o Swyddogion gyda Drylliau Awdurdodedig wedi eu hyfforddi, o dan ei asesiad risg a bygythiad strategol plismona arfog (APSTRA). Mae'r heddlu yn rhannu cyfleusterau hyfforddiant drylliau gyda lluoedd yng Ngogledd-orllewin Lloegr. Mae swyddogion wedi eu hyfforddi yn unol ag Arferion Proffesiynol Awdurdodedig (canllawiau cenedlaethol a ddarperir ar gyfer gwasanaeth yr heddlu) ac unedau a sefydlwyd yn genedlaethol gan y Coleg Plismona. Mae swyddogion yn mynychu ymarferion rhanbarthol yn rheolaidd i brofi'r ymateb i ymosodiad drylliau terfysgwr.*

   *Yn eu hadroddiad a gyhoeddwyd ym Mawrth 2018 roedd HMICFRS yn asesu Heddlu Gogledd Cymru gyda'r trefniadau angenrheidiol i sicrhau y gall gyflawni ei gyfrifoldebau plismona cenedlaethol.*

Dywedodd y CHTh fod Swyddogion o Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd hefyd wedi cwrdd y Cynghorydd Chris Bithell, oedd yn fodlon gyda'r atebion i'w gwestiynau.

11. **RHESTR O BENDERFYNIADAU A WNAED GAN GOMISIYNYDD YR HEDDLU A THROSEDD**

Cyflwynwyd rhestr o benderfyniadau allweddol a wnaed gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd o 23 Mawrth i 18 Mai 2018 i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

Teimlad y Cadeirydd oedd nad oedd digon o wybodaeth (o fewn yr adroddiad ac ar wefan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd) i graffu ar y penderfyniadau a wnaed. Mewn ymateb, dywedodd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd bod y rhan fwyaf o benderfyniadau'n ymwneud â chomisiynu gwasanaethau ac y byddai gwybodaeth bellach ar gael yn y cyfarfod nesaf, pan fyddai'r Panel yn derbyn diweddariad ar ganlyniadau'r Strategaeth Gomisiynu ar gyfer 2017/18.

Cadarnhaodd y CHTh bod y Swyddog Comisiynu wedi paratoi adroddiad monitro chwarterol ar y Strategaeth Gomisiynu, y gellid ei rannu gyda'r Panel.

O ran y penderfyniad a wnaed ar 26 Ebrill 2018 i ddarparu cyfraniad o £22,893 i Rwydweithiau Cymunedol OWL Cymru, eglurodd y CHTh bod y cyfraniad ar gyfer rhedeg canolfan rwydwaith gymunedol yn bennaf yn ardaloedd Sir y Fflint a Wrecsam, ond a oedd yn ymestyn i Sir Ddinbych hefyd, a'i fod yn seiliedig ar benderfyniadau a wnaed gan y CHTh blaenorol.

**PENDERFYNWYD -**

**Darparu gwybodaeth bellach ar y penderfyniadau a wnaed o ran y Strategaeth Gomisiynu i gyfarfod nesaf y Panel Heddlu a Throsedd.**

12. **ADBORTH GAN AELODAU SY'N GEFNOGWYR**

Derbyniodd Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru adborth gan Aelodau Sy'n Gefnogwyr fel a ganlyn:

<u>Cefnogwr Cyllid</u>

Adroddodd y Cynghorydd Diana Davies ei bod wedi siarad gyda Phrif Swyddog Cyllid Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ynglŷn â phenodi ymgynghorwyr i recriwtio aelodau'r Pwyllgor Craffu a sicrhaodd y Panel bod y broses recriwtio yn briodol, er mwyn atynnu'r sgiliau angenrheidiol. Er mwyn darparu sicrwydd pellach, byddai'r Cynghorydd Davies yn mynychu cyfarfod y Pwyllgor Craffu yn y dyfodol er mwyn sicrhau bod y math iawn o ymgeiswyr wedi eu recriwtio.

Cafodd y Panel wybod hefyd bod gwaith yn cael ei wneud er mwyn paratoi'r datganiad cyfrifon drafft. Yno gystal, cynghorwyd y Panel bod symudiad wedi bod mewn balansau wrth gefn oherwydd buddsoddi cyfalaf yng Ngorsaf Heddlu Llai a'r gyllideb staffio Diogelwch Cymunedol.

Gofynnodd y Cynghorydd Davies pe gellid paratoi adroddiad ar y sefyllfa o safbwynt yr Ardoll Brentisiaethau, yn enwedig gan nad oedd lluoedd Cymreig yn elwa o'r ardoll i gefnogi eu costau hyfforddi. Byddai'r Cadeirydd hefyd yn codi mater yr Ardoll mewn cyfarfod gyda Chymdeithas Llywodraeth Leol Cymru yn y dyfodol agos.

<u>Cefnogwr Caethwasiaeth Fodern a Chamfanteisio ar Blant</u>

Dywedodd Pat Atsbury wrth y Panel ei bod wedi mynychu cyfarfod Cronfa Arloesi Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, oedd wedi ystyried ceisiadau am gyllid i brosiectau i atal trosedd ac anhrefn yn y gymuned. Bu diddordeb sylweddol yn y gronfa ac roedd yn amlwg hefyd bod potensial ar gyfer cydweithio rhwng sefydliadau.

Dywedwyd wrth Aelodau hefyd ei bod wedi cwrdd gyda'r Ditectif Uwcharolygydd Jo Williams, oedd yn cefnogi cyflwyno'r Rhaglen Profiadau Niweidiol Mewn Plentyndod yn genedlaethol.

13. **DIWEDDARIAD CYFNODOL GAN GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Rhoddodd Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru (CHTh) ddiweddariad i Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mawrth 2018 hyd at 1 Mai 2018.

Amlygodd y Comisiynydd y meysydd canlynol o'r adroddiad

- Blaenoriaeth 1: Camdriniaeth Domestig:
  - Roedd data Gwasanaeth Erlyn y Goron yn dangos bod achosion Cam-Drin Domestig yn gyson a chadarnhaol, gyda chyfradd llwyddiant o oddeutu 85% yn y llys.
  - Roedd gostyngiad o -6.8% yn y nifer o bobl oedd yn aildroseddu.
- Blaenoriaeth 2 - Caethwasiaeth Fodern a Masnachu mewn Pobl:
  - Roedd llawer o weithgarwch yn dal yn y maes hwn, oedd yn cael ei gydnabod yn genedlaethol.
  - Roedd Gogledd Cymru yn un o bedwar Llu gydag uned Caethwasiaeth Fodern arbenigol.
  - Roedd cyflwyno cudd-wybodaeth ac ymwybyddiaeth gyhoeddus yn cynyddu.
- Blaenoriaeth 3 - Cam-drin Rhywiol a Cham-fanteisio'n Rhywiol ar Blant:
  - Mae lefelau cyfredol o droseddau Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant yn parhau'n isel heb fawr o erledigaeth neu droseddu ailadroddus.
  - Cydnabu'r CHTh y gwaith a wneir gan Barnados yn y maes hwn.
- Blaenoriaeth 4 - Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol (OCG):
  - Fesul blwyddyn bu cynnydd o 6.1% mewn troseddau cyffuriau.
  - Mae'r Llu yn parhau i ymlid Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol Llinellau Sirol.
  - Mae Grwpiau o'r fath yn targedu pobl ifanc agored i niwed ac yn gynyddol ddefnyddio plant (mor ifanc ag 14 oed) i gludo cyffuriau ar hyd y llinellau sirol.

Roedd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn teimlo y gellid gwella peth o'r wybodaeth a ddarperir o fewn y diweddariad er mwyn rhoi darlun mwy holistaidd a byddai'n ceisio adolygu'r wybodaeth wrth symud ymlaen.

Croesawodd y Panel yr adolygiad hwn ac roeddynt yn teimlo efallai y dylai'r wybodaeth ganolbwyntio ar feysydd o bryder a pherfformiad isel, fel y gallai'r Panel graffu ar y meysydd hyn yn fanylach.

Dywedodd y CHTh bod y Bwrdd Gweithredol Strategol yn craffu ar unrhyw feysydd o bryder a pherfformiad gwael; ac y byddai'n adolygu unrhyw ddata y gellid ei rannu gyda'r Panel; awgrymodd y Cynghorydd Dana

Davies atodiad i'r diweddariad, fyddai'n amlygu dangosyddion perfformiad allweddol.

Cyfeiriwyd hefyd at y broses o recriwtio Prif Gwnstabl newydd. Cadarnhaodd Prif Weithredwr Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd fod pawb sy'n ymwneud â'r broses yn gorfod cael hyfforddiant priodol a'u bod wedi cysylltu ag Aelod Annibynnol er mwyn sicrhau fod proses recriwtio dryloyw, agored a theg yn cael ei chynnal er mwyn dod o hyd i'r ymgeisydd gorau.

Rhagwelir y byddai asesiadau a chyfweliadau yn cael eu cynnal fis Awst 2018.

Rhoddodd y Dirprwy PCC wybod i'r PCP am y Gynhadledd Hyrwyddo Dwyieithrwydd Heddlu Gogledd Cymru llwyddiannus a gynhaliwyd ar 21 Mai 2018; pwrpas y gynhadledd oedd tynnu sylw at beth y mae'r Llu Heddlu a gwasanaethau brys eraill sy'n bartneriaid wedi'i gyflawni wrth hyrwyddo dwyieithrwydd yn y gweithle.

**PENDERFYNWYD -**

**Bod y Panel yn cefnogi adolygiad o'r wybodaeth a ddarperir yn Niweddariadau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd fel y nodir uchod.**

14. **TREULIAU PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU 2017/18**

Cyflwynodd Aelod Arweiniol a Chynghorydd Cyfreithiol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru adroddiad oedd yn cynnwys manylion am gostau gweinyddu a chostau cyfieithu'r Panel, a hawliadau unigol Aelodau o'r Panel ar gyfer costau a threuliau, fel sy'n ofynnol o dan Gytundeb y Swyddfa Gartref ar gyfer 2017/18.

Tra bod gwariant y Panel yn is na'r flwyddyn flaenorol, roedd y gwariant o £82,778 yn uwch na grant y Swyddfa Gartref o £70,975; ac roedd hyn yn bennaf oherwydd yr amser oedd Swyddogion wedi ei dreulio yn gweinyddu'r Panel, ac roedd yn cael ei amsugno gan yr Awdurdod Cynnal.

Roedd y Cynghorydd Diana Davies yn teimlo y dylid anfon sylwadau at y Swyddfa Gartref a CLILC, gan nad oedd Paneli Heddlu a Throsedd Cymreig yn gallu cael mynediad at gyllid 'ychwanegol' gan Awdurdodau Lleol er mwyn cefnogi gwaith y Panel, fel sy'n digwydd yn Lloegr.

Cadarnhaodd y Cadeirydd y byddai'n codi'r mater hwn mewn cyfarfod gyda CLILC ar 13 Mehefin 2018.

**PENDERFYNWYD -**

**(a) Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn nodi a chyhoeddi costau gweinyddol a chostau cyfieithu'r Panel a hawliadau Aelodau unigol o'r Panel am dreuliau a lwfansau fel sy'n ofynnol.**

**(b) Bod y Cadeirydd yn codi mater Grant y Swyddfa Gartref gyda CLILC ar 13 Mehefin 2018**

15. **YSTYRIED RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

Cyflwynwyd y Raglen Gwaith i'r Dyfodol i Banel yr Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru.

**PENDERFYNWYD -**

**Cymeradwyo'r Rhaglen Gwaith i'r Dyfodol.**

16. **DYDDIAD Y CYFARFOD NESAF:**

Cynhelir cyfarfod nesaf Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ddydd Llun 24 Medi 2018 am 2.00pm.

(Daeth y cyfarfod i ben am 4.10 pm)

**CWESTIYNAU I GOMISIYNYDD HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU**

| **Person sy'n cyflwyno'r cwestiwn** | **Dyddiad Cyfarfod y Panel** | **Cwestiwn** | **Cyflwyno i'r Comisiynydd** |
|---|---|---|---|
| John Williams | 24/09/18 | Oherwydd y cyfyngiadau amser a roddwyd ar fechnïaeth yr heddlu bellach, a yw cyfanswm nifer y bobl sydd ar fechnïaeth gan yr heddlu wedi lleihau yng Ngogledd Cymru?<br><br>Os mai dyma'r achos, ac yn dilyn beirniadaeth gan y Barnwr Rhys Rowlands mewn achos cyffuriau diweddar (yn y Daily Post 30/8/18) a oes unrhyw broblemau penodol yn cael eu profi wrth sicrhau bod pobl yn dod gerbron y llys, a beth sy'n cael ei wneud i ddatrys y sefyllfa? | 04/09/18 |

**Y wybodaeth ddiweddaraf ar gyfer y Panel Heddlu a Throsedd**
**24 Medi 2018**
***Arfon Jones, Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Gogledd Cymru***

**Cyflwyniad**

Dyma fy adroddiad i'r Panel ar gyfer y cyfnod rhwng 1 Mai ac 1 Awst 2018.

Mae'r adroddiad hwn yn delio â pherfformiad yn erbyn Cynllun Heddlu a Throsedd 2017-2021. Nid yw'r adroddiad yn ymwneud â'r gofynion adrodd statudol penodol. Mae'n ymwneud yn bennaf â swyddogaeth ehangach y Panel o dan adran 28 (6) Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf) i adolygu neu graffu ar benderfyniadau a wnaed neu gamau eraill a gymerwyd gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd (y Comisiynydd) ar gyfer gogledd Cymru, ac i lunio adroddiadau a gwneud argymhellion i mi fel Comisiynydd yn hynny o beth. Hefyd, yn unol ag adran 13 (1) y Ddeddf, mae'n rhoi i'r Panel yr wybodaeth y mae ei angen gan y Comisiynydd er mwyn cyflawni ei swyddogaethau (y ceisiadau penodol).

**Adran Un: Fy ngwaith craffu ar Heddlu Gogledd Cymru**

Bydd aelodau'r panel yn ymwybodol, yn 2017-2021, fy mod i wedi penderfynu blaenoriaethu'r meysydd hynny a nodwyd fel prif feysydd bygythiad, risg a niwed. Sef:

- **Cam-drin domestig**
- **Caethwasiaeth Fodern a Masnachu Pobl**
- **Cam-drin Rhywiol gan gynnwys Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant**
- **Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol**

Yn ychwanegol at y blaenoriaethau hyn, mae gwasanaeth heddlu gweladwy a hygyrch yn parhau i fod yn bwysig i'r cyhoedd. Mae'r Cynllun yn adlewyrchu'r hyn mae'r cyhoedd a'r Panel Heddlu a Throsedd wedi dweud wrthyf ac mae **Darparu Cymdogaethau Diogel** yn parhau i fod yn flaenoriaeth i mi.

Yn unol â hynny, rwy'n craffu ar Heddlu Gogledd Cymru trwy fesur ei berfformiad yn erbyn y pum blaenoriaeth hyn. Mae'r Bwrdd Gweithredol Strategol (SEB) yr wyf yn ei gadeirio yn parhau i fod yn brif gyfrwng er mwyn i mi gyflawni'r swyddogaeth graffu honno, ac mae'r Prif Gwnstabl a'i uwch swyddogion yn eistedd arno. Cyflwynir adroddiad perfformiad gan yr Heddlu ym mhob cyfarfod SEB sy'n nodi'r sefyllfa a'r heriau presennol mewn perthynas â phob blaenoriaeth.

Er y byddaf yn monitro perfformiad yr Heddlu yn erbyn y pum blaenoriaeth hyn yn fy nghyfarfodydd SEB, mae'n ofynnol wrth gwrs bod agweddau eraill ar blismona yn parhau i gael eu cyflwyno'n effeithiol ac yn effeithlon. Yn hynny o beth, craffir ar rywfaint o wybodaeth am blismona craidd yn yr SEB hefyd.

Wrth baratoi'r adroddiad hwn ar gyfer y Panel, rwyf wedi ystyried y cais a wnaed gan y Panel yn y cyfarfod diwethaf y dylid "canolbwyntio ar feysydd pryder a pherfformiad gwael, fel y gallai'r Panel Heddlu a Throsedd graffu'n fanylach ar y meysydd hyn". Fel y soniais ar y pryd, mae'r Bwrdd Gweithredol Strategol yn adolygu pob perfformiad, boed yn dda neu'n wael. Bydd ffigyrau perfformiad yn erbyn pob un o'm blaenoriaethau strategol yn parhau i gael eu rhannu gydag aelodau'r Panel fel yr wyf bob amser wedi'i wneud, ynghyd â pha gamau rwyf wedi eu cymryd i graffu ar berfformiad.

**Blaenoriaeth 1: Cam-drin Domestig**

Mae Trais Domestig yn dangos gwelliannau mewn sawl maes, gan gynnwys ansawdd ymchwiliadau, nifer yr Hysbysiadau Amddiffyn Trais Domestig a roddwyd, yr achosion o weithredu mechnïaeth amodol a chyfraddau erlyn. Bu cynnydd yn nifer yr achosion o droseddau domestig a gofnodwyd ond hefyd roedd llai o unigolion a fu'n ddioddefwyr neu droseddwyr. Gallai symud o ddigwyddiadau domestig nad oedd yn droseddau i droseddau domestig awgrymu fod cynnydd ym manylder y modd y cofnodir troseddau. Rwy'n falch fod yna welliannau wedi bod ym mhob maes ar gyfer y flaenoriaeth hon.

Dioddefwyr mwy nac unwaith – mae Wythnos 20 (wythnos yn dechrau 13 Awst) yn dangos gostyngiad o 2.1%. Mae 32.9% yn fwy o ddioddefwyr sy'n ddynion hyd yma eleni, o'i gymharu â'r llynedd. Cwblhawyd ymchwil o amgylch achosion o gam-drin domestig fwy nac unwaith i ddeall y rhesymau posibl am y gostyngiad yn yr achosion a ailadroddwyd. Rwy'n deall fod yr ymchwil yn awgrymu fod y gostyngiad yn un gwirioneddol ac nad yw'n gysylltiedig ag unrhyw newid yn y modd y cofnodi'r troseddau neu reolau cyfrif.

Troseddwyr fwy nac unwaith – mae Wythnos 20 yn dangos gostyngiad o 25.5%. Mae troseddwyr trais domestig yn y grŵp oedran 25-34 oed yn bennaf. Mae Tref Wrecsam wedi gweld gostyngiad mawr o 68.4%, ond mae hyn yn seiliedig ar niferoedd bychan, yn gostwng o 38 i 12.

Mae'r tîm Hyder a Bodlonrwydd Dioddefwyr Trais Domestig ar hyn o bryd yn cael eu recriwtio a disgwylir iddynt ddechrau gweithio'n fuan.

Erlyniadau Llwyddiannus – Ym mis Mawrth 2018, roedd 81.3% o achosion llys Trais Domestig yn llwyddiannus o'u cymharu â 77.3% y flwyddyn flaenorol hyd yma.

DVPN – Ar Wythnos 20, bu cynnydd o 60.3% yn yr achosion o Drais Domestig lle'r oedd o leiaf un DVPN wedi ei roi. Mae swyddogion yn ystyried hysbysiadau amddiffyn rhag trais domestig (DVPN) a gorchmynion amddiffyn rhag trais domestig (DVPO) yn fuan ar ôl digwyddiad cam-drin domestig. Rhaid defnyddio'r hysbysiadau a'r gorchmynion hyn yn dilyn digwyddiad domestig i gynnig amddiffyniad tymor byr i'r dioddefwr pan nad oes unrhyw un wedi ei arestio ond bod angen gweithredu cadarnhaol, neu phan fod rhywun wedi ei arestio ond fod yr ymchwiliad ar y gweill. Lluniwyd y broses i roi amser i ddioddefwyr ddod atynt eu hunain drwy roi seibiant dros dro iddynt oddi wrth y sawl sy'n eu cam-drin a chaniatáu eu hatgyfeirio at wasanaethau cefnogaeth. Gellir bwrw ymlaen â'r broses DVPN/DVPO heb gefnogaeth ymarferol y dioddefwr, neu hyd yn oed yn erbyn eu dymuniadau, os credir fod angen hynny i'w diogelu rhag trais neu'r bygythiad o drais.

Mae'n broses ddwy ffordd sy'n cynnwys yr heddlu a'r llys ynadon. Unwaith y bydd yr heddlu wedi gosod DVPN ar y sawl sydd dan amheuaeth, rhaid gwneud cais i'r llys ynadon am y DVPO o fewn 48 awr i gyflwyno'r DVPN. Mae amodau caeth sy'n berthnasol ar bob cam. Os torrir yr hysbysiad neu'r gorchymyn mae'n cynnwys y pŵer i arestio.

Mae'n hanfodol, pan roddir DVPN neu DVPO, fod yna gynllun ar gyfer monitro a gorfodi'r amodau. Gallai hyn gynnwys y dioddefwr yn rhoi gwybod i'r heddlu am achosion o fynd yn groes iddynt a defnyddio timau heddlu lleol i fonitro'r dioddefwr ac / neu'r sawl sydd dan amheuaeth.

Rhoddwyd cyngor i holl swyddogion yr heddlu ynghylch yr angen i ystyried diogelu dioddefwyr ar ôl i'r troseddwyr gael eu rhyddhau o'r ddalfa, a phan nad yw Heddlu Gogledd Cymru mewn sefyllfa i newid. Rhaid ystyried y defnydd o fechnïaeth amodol a DVPN. Yn ystod Goruchwyliaeth Dyddiol

rhoddir ystyriaeth i bob achos o Gam-drin Domestig a'u hadolygu. Yn ystod y cyfarfodydd bob pythefnos, caiff DVPN eu monitro a rhoddir y dasg i dimau o gynnal ymweliadau tawelu meddwl rhagweithiol.

Mae angen canolbwyntio rŵan ar ddeall effaith y DVPO gan ei bod yn ymddangos mai dyma ble mae Heddlu Gogledd Cymru yn gwneud rhywbeth gwahanol i luoedd eraill. Mae'n ymddangos fod HGC ar y blaen i sawl llu mawr iawn o safbwynt niferoedd y DVPO.

Mechnïaeth Amodol – Mae newidiadau i reolau mechnïaeth ym mis Ebrill 2017, yn golygu mai dim ond mis sydd gan yr heddlu i ddwyn cyhuddiad ar ôl arestio. Yn genedlaethol, arweiniodd hyn at ymchwydd yn nifer y rhai dan amheuaeth a "Ryddhawyd Dan Ymchwiliad" heb unrhyw amodau. Gwelwyd cwymp sylweddol yng nghyfran y rhai a arestiwyd yn ymwneud â Cham-Drin Domestig a gafodd eu rhyddhau dan fechnïaeth amodol pan gyflwynwyd y drefn o ryddhau dan ymchwiliad. Serch hynny, mae hyn wedi'i adfer rywfaint ers hynny, gyda thuedd gynyddol. Ar Wythnos 20, arweiniodd 17.2% o'r achosion at bresenoldeb yn ymwneud â cham-drin domestig yn y ddalfa at roi mechnïaeth amodol.

Ar Wythnos 20, cafwyd delweddau tystiolaeth o Fideo wedi'i Wisgo ar y Corff mewn 11.6% o achosion o gam-drin domestig. Mae hyn yn codi i 59.5% pan fod DVPN wedi'i roi.


Ni fu unrhyw lofruddiaethau yn ymwneud â materion domestig yn y flwyddyn ariannol hon.

Wrth edrych ar y ffigyrau ansawdd ffeil cyffredinol (nid dim ond ar gyfer Cam-drin Domestig), mae'r ansawdd wedi gwella yn sylweddol dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf, o 81.3% yn 2016 i 89.2% hyd yma yn 2018.


| | |
|---|---|
| 2016 | 81.3% |
| 2017 | 84.7% |
| 2018 hyd yma | 89.2% |

Mae ystelcian ac aflonyddu yn grŵp o droseddau y rhagwelir a fydd yn parhau i gynyddu yn sgil rhagor o riportio achosion o gyfathrebu maleisus, ac mae achosion ychwanegol o aflonyddu wedi eu cofnodi oherwydd newidiadau yn y rheolau cyfrif o fis Ebrill 2018. Mae'r ffigyrau ar gyfer mis Mawrth 2018 wedi gweld cynnydd o 130% yn y troseddau ystelcian ac aflonyddu, ac mae hyn yn gysylltiedig yn rhannol â chynnwys troseddau cyfathrebu maleisus yn y ffigyrau aflonyddu ac ystelcian.

<u>Ystelcian ac Aflonyddu</u>



<u>Cyfathrebu Maleisus</u>





Yn ystod y cyfnod hwn mae cryn dipyn o waith wedi ei wneud i gyflwyno Fframwaith Perfformiad Trais yn Erbyn Merched, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol ar gyfer y rhanbarth. Dyma'r tro cyntaf i'r rhanbarth gael darlun strategol llawn ar ddarpariaeth gwasanaethau cam-drin domestig. Byddaf yn rhoi rhagor o fanylion am y Fframwaith hon yn fy nghyflwyniad Swyddog Comisiynu i'r Panel ar 24 Medi.

**Blaenoriaeth 2: Caethwasiaeth Fodern a Masnachu mewn Pobl**

Mae achosion o Gaethwasiaeth Fodern yn parhau i fod ar lefel isel, ond rwyf wedi derbyn sicrwydd nad yw hyn yn adlewyrchu'r holl waith ataliol ac ymchwiliol sydd ar y gweill.

Dros y 12 mis diwethaf mae 18 (43%) o'r troseddau a riportiwyd mewn perthynas â chaethwasanaeth domestig, 19 (45%) i hwyluso teithio a 5 (12%) o lafur dan orfodaeth.


MDS Offences types reported over last 12 months




Ym mis Gorffennaf 2018, roedd 9 atgyfeiriad NRM yn y flwyddyn hyd yma. Mae’r uned MDS yn parhau i weithio’n agos gyda Barnardo’s, Sororoptimyddion, Mewnfudo, Llywodraeth Cymru, GLAA a BAWSO.

Mae’r duedd o ran Gwybodaeth Caethwasiaeth Fodern wedi bod yn cynyddu’n ddiweddar gyda gostyngiad bychan ym mis Gorffennaf.

Intelligence submissions over last 12 months




Mae’r Uned Gaethwasiaeth Fodern bellach yn dosbarthu bwletinau gwybodaeth ar wahân i swyddogion mewn perthynas â’u hardaloedd unigol. Mae’n ymddangos fod hyn yn cael dylanwad gadarnhaol ar faint o wybodaeth sy’n cael ei chyflwyno gan swyddogion mewn perthynas ag MDS. Rydym hefyd wedi gweld cynnydd yn yr atgyfeiriadau gan y cyhoedd, efallai oherwydd y sylw / allbwn mewn cyfryngau cymdeithasol. Mae Barnardo's yn cynhyrchu cudd-wybodaeth wrth ymdrin â dioddefwyr ac mae hyn hefyd yn cael effaith gadarnhaol. Gellir hefyd priodoli cynnydd mewn MDS i weithgarwch cyffredinol yr heddlu.

Mae’r ymchwiliadau ar MDS yn gymhleth ac mae sawl ymchwiliad yn cael eu cynnal ar draws gogledd Cymru. Mae dau ddyn wedi eu cyhuddo’n ddiweddar o droseddau masnachu pobl fel rhan o Ymgyrch Lenton ac mae dau achos o lafur dan orfodaeth wedi eu trosglwyddo i Wasanaeth Erlyn y Goron yn dilyn ymchwiliadau hir.

Dangosir ymagwedd Heddlu Gogledd Cymru tuag at MDS mewn achos diweddar iawn lle y cododd aelod o'r cyhoedd bryderon yn uniongyrchol i'r uned MDS ynghylch y modd yr oedd dau weithiwr tramor yn cael eu trin mewn bwyty Tsieineaidd. Cynhaliodd yr uned MDS ymchwil gefndirol a chynhigiwyd cyngor tactegol. Cymerwyd perchnogaeth drosto gan CID y Gwasanaeth Heddlu Lleol a chynlluniwyd ymweliad ar y cyd gyda'n partneriaid (BAWSO a Mewnfudo) i wirio lles y ddau weithiwr. Cafwyd ymateb proffesiynol amserol. Negyddwyd y pryderon a chanfuwyd fod y ddau weithiwr yn fyfyrwyr prifysgol a oedd yn ennill arian ychwanegol yn eu amser sbâr o'u gwirfodd. Mae hyn yn nodweddiadol o'r ymagwedd aeddfed sy'n cael ei chymryd ynghylch pryderon MDS ar draws gogledd Cymru. Mae'n adlewyrchu ymateb proffesiynol, hyblyg wedi'i gydgysylltu sy'n cael ei gymryd ar y cyd â'n partneriaid. Mae gweithio mewn partneriaeth yn parhau i fod yn arbennig o gryf mewn ardaloedd awdurdodau lleol fel Wrecsam a Sir y Fflint.

Cynhaliwyd cyfarfod diwethaf y Grŵp Caethwasiaeth Fodern Ranbarthol ddydd Mercher 13 Mehefin 2018. Fel Aelod Panel arweiniol ar gyfer Caethwasiaeth Fodern, estynnwyd gwahoddiad i Mrs Pat Astbury i ddod i'r cyfarfod. Yn anffodus, nid oedd yn gallu bod yn bresennol. Roedd cynrychiolydd o Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Llu yn bresennol yn y cyfarfod.

Cynhaliwyd Cynhadledd Gaethwasiaeth Fodern Genedlaethol (gan Modern Slavery Police Transformation) ym mis Mehefin. Roedd cynrychiolydd o'm swyddfa yn bresennol yn y digwyddiad. Estynnwyd gwahoddiad hefyd i Mrs Astbury. Anelwyd y digwyddiad at uwch ymarferwyr plismona i ystyried y galwadau strategol ac ymarferol y mae caethwasiaeth fodern yn eu cyflwyno i heddluoedd.


Hefyd ym mis Mehefin aeth fy Nirprwy Gomisiynydd, Ann Griffith, i ddigwyddiad cenedlaethol a drefnwyd i godi ymwybyddiaeth partneriaid ehangach yn y sector cyhoeddus. Anelwyd y digwyddiad hwn at lu o bartneriaid (y tu allan i blismona) sydd â rhan hanfodol mewn perthynas ag ymdrin â chaethwasiaeth fodern a gwneud atgyfeiriadau NRM.

Bydd hyfforddiant pellach i godi ymwybyddiaeth am gaethwasiaeth fodern yn cael ei rhoi i aelodau etholedig Wrecsam ddydd Llun 8 Hydref. Bydd hyn yn codi ymwybyddiaeth ar y cyd ynghylch Llinellau Sirol a Chaethwasiaeth Fodern ac yn cael ei ddarparu gan swyddogion Gogledd Cymru a Swyddog Polisi Swyddfa'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd.

Rwyf wedi rhoi ymateb manwl i'r Pwyllgor Dethol Materion Cartref ar Gaethwasiaeth Fodern – gweler yr ymateb llawn yn Atodiad 2.

**Blaenoriaeth 3: Cam-drin Rhywiol gan gynnwys Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant**

Cyflwynwyd 36 eitem o gudd-wybodaeth Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant ym mis Gorffennaf 2018 o'i gymharu â 100 eitem o gudd-wybodaeth fisol ar gyfartaledd yn 2017/18. Mae hyn yn awgrymu fod tuedd ar i lawr mewn cudd-wybodaeth Cam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant.





Mae uwch swyddogion yn dweud wrthyf fod y gostyngiad mewn cudd-wybodaeth a gyflwynir yn sgil colli'r gwasanaeth cyfweld Dychwelyd Adref a arferai gael ei ddarparu gan Barnado's. Mae Cyngor Bwrdeistref Sirol Wrecsam yn parhau i ddarparu safon dda o gudd-wybodaeth yn sgil cyflogi rhywun i ddarparu'r gwasanaeth dychwelyd adref ac mae Cyngor Sir y Fflint yn ystyried prynu i mewn i swydd Wrecsam. Mae gwaith yn parhau i gyflwyno proses newydd ar gyfer cyfweliadau dychwelyd ar ôl bod ar goll ar draws Gogledd Cymru. Rwy'n gobeithio y bydd y gwasanaeth hwn yn cael ei adfer mor fuan â phosibl gan fod ei ddileu wedi cael effaith niweidiol ar blant diamddiffyn ar draws Gogledd Cymru.

Yn fy Mwrdd Gweithredol Strategol ar 26 Gorffennaf 2018, gofynnais am wybodaeth ychwanegol ynghylch cam-fanteisio'n rhywiol ar blant yn sgil y wybodaeth gyfyngedig a ddarparwyd gan y Llu yn ei adroddiad perfformiad.


Un newid rwy'n ystyried ei wneud i fy Nghynllun Heddlu a Throsedd yn 2019 yw diwygio geiriad y flaenoriaeth strategol hon o Gam-fanteisio'n Rhywiol ar Blant i Gam-fanteisio'n Droseddol ar Blant. Byddai'r newid hwn yn cynnwys achosion llinellau sirol sy'n cynyddu yn eu hamlder ac ni ellir gor-bwysleisio pa mor ddiamddiffyn yw'r plant a'r bobl ifanc dan sylw.

**Blaenoriaeth 4: Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol**

Ar hyn o bryd mae 28 o Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol yng Ngogledd Cymru. Mae cyfanswm o 267 o unigolion wedi eu cysylltu â'r grwpiau hyn.




Cafodd asedau eu hatafaelu gan 11 o droseddwyr ym mis Gorffennaf, roedd pob un yn ymwneud ag Eiddo Cyffredinol.




**Dyma rai o'r llwyddiannau diweddaraf:**

- Daeth achos Ymgyrch Teal i gasgliad llwyddiannus a chafwyd Les Baines o Gei Connah yn euog o lofruddio gŵr o Lannau Merswy o'r enw Matthew Cassidy (19 oed). Roedd David Woods o Lannau Merswy eisoes wedi pledio'n euog i'r llofruddiaeth. Roedd y lofruddiaeth hon yn ymwneud ag anghydfod cyffuriau yn cynnwys gangiau Llinellau Sirol Glannau Merswy yn gweithredu yn ardal Glannau Dyfrdwy. Dedfrydwyd y ddau ddyn i gyfanswm o 53 mlynedd.
- Cafwyd Redvers Bickley yn euog o lofruddiaeth Tyler Denton ac o geisio llofruddio 3 aelod o deulu'r dioddefwr. Dedfrydwyd Bickley i garchar am oes.
- Yn ystod mis Mawrth 2018 daethpwyd o hyd i wn llaw yn cynnwys bwledi a chetris, 1 gwn pelets a 4kg o gyffuriau rheoledig mewn isdyfiant mewn ardal gyhoeddus yng Nghaergybi – cysylltwyd y darganfyddiad hwn â Grŵp Troseddau Cyfundrefnol o Ogledd Cymru.
- Yn ystod mis Mawrth riportiwyd ymosodiad treisgar ar ddyn lleol yn ardal Caergybi. Roedd wedi'i drywanu drosodd a throsodd gan ei adael gyda anafiadau a allai fod wedi ei ladd. Arestiwyd dyn 22 oed o Lannau Merswy am yr ymosodiad. Roedd yn yr ardal yn delio cyffuriau gydag eraill y credir oedd yn rhan o Grŵp Troseddau Cyfundrefnol a oedd yn gweithredu yn ardal Bangor a Chaergybi.

- Aeth yr heddlu ar ôl ac arestio Prif aelod y Grŵp Troseddau Cyfundrefnol am Fyrgleriaeth a Waethygwyd a chlwyfo. Atafaelodd yr Heddlu hefyd £39,000 a chafodd 3 aelod arall o'r Grŵp a 4 arall eu harestio am eu rhan. Roedd hwn yn ymosodiad wedi'i dargedu mewn perthynas â gweithgarwch delio mewn cyffuriau. Nid oes amheuaeth y bydd y gweithredu hwn wedi amharu ar eu llif arian a'u troseddu. Mae 3 prif aelod o'r Grŵp wedi pledio'n euog a bydd eraill yn wynebu achos ym mis Hydref 2018.
- Mae Grŵp Troseddau Cyfundrefnol yn gweithredu yng Ngogledd Cymru, Gorllewin Swydd Efrog, Llundain a Swydd Bedford, a oedd yn gyfrifol am Gynhyrchu Steroidau wedi'i chwalu'n ddiweddar. Mae 14 aelod o'r Grŵp wedi derbyn dedfrydau sylweddol gan roi cyfanswm o 45 mlynedd ac mae gwarant arestio rhyngwladol wedi'i chyhoeddi ar gyfer aelod sydd wedi dianc o'r wlad.
- Mae gweithgarwch yr Heddlu wedi arwain at amharu ar ac arestio Grŵp Troseddu Cyfundrefnol yn ardal Heddlu'r Met a oedd yn gweithredu yn ardal Gorllewin Conwy. Mae 3 o'r prif aelodau bellach yn treulio dedfrydau o garchar ac nid yw'r Grŵp bellach yn gweithredu yn ardal Gogledd Cymru.

**Dyddiau Effaith Gweithredol:**

Cynhaliwyd ymgyrchoedd atal traffig rhagweithiol a phatrolau rhagweithiol mewn ardaloedd sy'n adnabyddus am gyflenwi cyffuriau yng Ngogledd Gwynedd.

Ym mis Mawrth, cynhaliwyd cyfres o gyrchoedd gwawr mewn 7 eiddo yn ardal glannau Dyfrdwy. Arweiniodd y cyrchoedd hyn at nifer o arestiadau a chipiwyd symiau sylweddol o gyffuriau.

Arweiniodd cyfres o gyrchoedd yn ardaloedd Wrecsam, Llangollen a Glannau Merswy at arestiadau, a chipiwyd cyffuriau ac arian.

Drwy dargedu Grŵp Troseddu Cyfundrefnol a oedd yn brif gyflenwr papur wedi'i drwytho mewn Sbeis i mewn i garchardai lleol, llwyddwyd i chwalu'r Grŵp. Mae 3 aelod o'r Gang, gan gynnwys un o'r prif aelodau wedi eu harestio am droseddau cynllwyn cyffuriau, a byddant ger bron y llys ym mis Medi 2018.

Cydnabyddir fod Grwpiau Troseddau Cyfundrefnol o ardaloedd eraill yn aml yn cyflawni eu gweithgarwch troseddol ac yn gwario eu henillion troseddol mewn safleoedd carafanau ar draws Gogledd Cymru yn arbennig yn ystod tymor yr haf. Mae cyfres o ddyddiau gweithredu aml-asiantaeth wedi bod, yn arbennig yn ardal Arfordirol Conwy a Sir Ddinbych, gyda'r bwriad o gasglu cudd-wybodaeth a gwneud yr ardal mor anghyfeillgar â phosibl ar gyfer gweithgarwch troseddol yn ymwneud â Grwpiau Troseddu Cyfundrefnol.

Ym mis Ebrill, cyhoeddodd Llywodraeth y DU'r Strategaeth Trais Difrifol i fynd i'r afael â'r cynnydd mewn troseddau gyda chyllyll, trais gangiau ac effeithiau camddefnyddio sylweddau. Yn dilyn cyhoeddi'r Strategaeth, mae'r Llywodraeth wedi gofyn am gais am dystiolaeth gan wasanaethau cyhoeddus. Mae fy ymateb i'r Strategaeth hon wedi ei chynnwys yn Atodiad 1 isod.

**Blaenoriaeth 5: Darparu Cymdogaethau Mwy Diogel**

Ym mis Mawrth 2018, adroddwyd fod 74.3% o ymatebwyr yn credu fod Heddlu Gogledd Cymru yn **Deall Materion Cymunedol.** Gosododd hyn Heddlu Gogledd Cymru yn 7fed yn genedlaethol am y 12 mis hyd at fis Mawrth 2018 (i lawr 2.6 pwynt canran ar y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2017). Mae hyn yn rhoi Heddlu Gogledd Cymru yn 3ydd o blith ei Grŵp o Luoedd Tebycaf ac yn 2il yng Nghymru.

Ym mis Mawrth 2018, o ran **Heddlu yn Ymateb i Faterion Cymunedol,** roedd Heddlu Gogledd Cymru yn 13eg yn genedlaethol gyda 63.2% am y 12 mis tan fis Mawrth 2018, i lawr 2.5 pwynt canran ar y 12 mis hyd at fis Rhagfyr 2017. Roedd yn ein rhoi yn 2il o blith Lluoedd Tebyg ac 2il yng Nghymru.

Ym mis Gorffennaf 2018, parhaodd y nifer o chwiliadau RMS a wnaed ar ffonau symudol i gynyddu gan fod dyfeisiau symudol wedi'u lledaenu'n ehangach. Mae adborth ynghylch dyfeisiau symudol yn dda o safbwynt eu defnyddioldeb. Ym mis Gorffennaf 2018 dangosir fod swyddogion 'allan o'r orsaf' am 42.2% o'r oriau sydd ar gael, a'r ffigwr ar gyfer PCSOs oedd 43.7%. Mae angen deall y data hwn ar lefel mwy lleol. Mae Uwch Dimau Rheoli wedi gofyn am ddata Airwave penodol ar gyfer eu gorsafoedd er mwyn iddynt ddeall pryd y mae Swyddogion Cymorth Cymunedol yr Heddlu (PCSOs) allan a gwirio'r data yn erbyn gweithgarwch gweithredol.

**Materion Plismona Craidd:**

Ar wythnos 20 blwyddyn ariannol 18/19 roedd cynnydd o 16.6% wedi bod yn y troseddau a gofnodwyd. Caiff y cynnydd cyffredinol ei arwain gan drais heb anaf. O fewn hyn, mae cynnydd mewn ymosodiad cyffredin, aflonyddu a chyfathrebu maleisus fel mathau o droseddau. Mae ymosodiadau cyffredin yn cyfrif am hanner y cynnydd, gyda'r hanner arall wedi eu gwasgaru'n gyfartal rhwng aflonyddu a chyfathrebu maleisus. Mae mwyafrif yr ymosodiadau cyffredin wedi eu profi yn ardal Arfordirol Sir Ddinbych ac Abergele, er bod lefelau wedi dychwelyd i fod o fewn y terfynau arferol yn yr wythnosau diwethaf. Mae ymchwil wedi dangos nad oes cynnydd yn yr ymosodiadau cyffredin domestig, felly diystyrwyd hyn fel ffactor. Mae proffilio pellach yn digwydd.

Ar Wythnos 20, gwelir gostyngiad o 21.0% mewn **Ymddygiad Gwrthgymdeithasol** ar draws Gogledd Cymru. Nid yw'r ymchwydd tymhorol disgwyliedig mewn Ymddygiad Gwrthgymdeithasol wedi digwydd eleni, ac ni welwyd unrhyw gynnydd mewn rhai Ardaloedd Plismona Lleol. Rwyf wedi cael fy hysbysu fod y gostyngiad hwn yn sgil newid yn yr arfer cofnodi ynghylch ystelcian ac aflonyddu, gyda rhagor o ddigwyddiadau yn cael eu cofnodi fel troseddau Trais heb Anaf yn lle hynny.


Yr **amser ymateb ar unwaith cyfartalog** yw 12.00 munud, ac mae'n parhau i fod yn sefydlog er gwaethaf cynnydd yn nifer y galwadau. Mae hyn yn amrywio o 8.7 munud yn Nhref Wrecsam i 16.99 munud yn Ne Gwynedd.

Roedd **y nifer a laddwyd neu a anafwyd yn ddifrifol ar ein ffyrdd** wedi gostwng o 7.2% ym mis Mawrth 2018 (gan ostwng o 307 i 285). Serch hynny, mae ffigyrau cychwynnol o ddechrau blwyddyn ariannol 18/19 yn dangos lefel uchel o farwolaethau i feicwyr modur.

**Troseddu Treisgar:**


Yng nghyfarfod diwethaf y Panel, gofynnwyd i mi roi 'Ystadegau Troseddu Treisgar' i Aelodau'r Panel. Wele'r ystadegau hyn isod. Dylai Aelodau nodi fod trais gydag anafiadau a gofnodwyd wedi aros yn eithaf sefydlog ers mis Ebrill 2016 ond bu cynnydd sylweddol yn yr achosion o drais heb anaf.

**Trais a Gofnodwyd gydag Anaf – mis Ebrill 2016 tan fis Awst 2018**





| | 2018 | 2017 | 2016 | Swm: |
|---|---|---|---|---|
| 1 Cyhuddwyd/ Gwysiwyd | 74 | 853 | 1323 | 2250 |
| 2 Rhybudd Ieuenctid | 0 | 30 | 27 | 57 |
| 3 Rhybudd i Oedolyn | 32 | 136 | 187 | 355 |
| 5 Troseddwr Ymadawedig | 0 | 2 | 3 | 5 |
| 8 Datrysiad Cymunedol | 22 | 189 | 333 | 544 |
| 9 Lles y Cyhoedd Gwasanaeth Erlyn y Goron | 11 | 42 | 42 | 95 |
| 10 Lles y Cyhoedd yr Heddlu | 73 | 263 | 166 | 502 |
| 11 Dan Oed | 12 | 42 | 45 | 99 |
| 12 Y sawl a amheuir yn Sâl | 3 | 21 | 18 | 42 |
| 13 Dioddefwr yn Rhy Sâl | 1 | 11 | 4 | 16 |
| 14 Neb dan amheuaeth | 63 | 362 | 251 | 676 |
| 15 Cymorth i Ddioddefwyr | 192 | 1024 | 993 | 2209 |
| 16 Dim Cefnogaeth | 555 | 2298 | 1988 | 4841 |
| 17 Terfyn Amser wedi Dod i Ben | 8 | 29 | 45 | 82 |
| 18 Ymchwiliad wedi'i gwblhau | 86 | 470 | 433 | 989 |
| 20 Asiantaeth Arall | 116 | 304 | 137 | 557 |
| Newydd | 1214 | 459 | 32 | 1705 |
| Swm: | 2462 | 6535 | 6027 | 15024 |


**Trais a Gofnodwyd heb Anaf – mis Ebrill 2016- Gorffennaf 2018**




**Troseddau â chyllyll:**

Ar gyfer y 12 mis hyd at fis Mawrth 2018, roedd Gogledd Cymru yn safle 16 yn genedlaethol gyda 0.37 o droseddau a chyllyll fesul 1000 o boblogaeth. Mae hyn yn ein rhoi yn 6ed o blith ein Grŵp Mwyaf Tebyg ac yn 3ydd yng Nghymru. Mae hyn yn well na'r chwarter diwethaf pan oeddem yn 20fed yn genedlaethol gyda 0.44 fesul 1000 a'n rhoddodd yn 8fed o blith ein Grŵp Mwyaf Tebyg ac yn 3ydd yng Nghymru.






Mae'r data uchod yn dangos nifer y troseddau, a ddosberthir fel Trais yn erbyn yr Unigolyn, sydd wedi'u cofnodi, lle mae cyllell / llafn / offeryn miniog wedi'i gofnodi fel yr Arf a Ddefnyddiwyd / Is-deip o Arf a Ddefnyddiwyd (Achosion o Ddulliau Gweithredu).

| | Crimes | Arrests | Arrest Rate |
|---|---|---|---|
| YTD | 188 | 107 | 56.9% |
| Last YTD | 142 | 97 | 68.3% |
| % Change | 32.4% | 10.3% | -11.4 pp |

Mae'r data "Arestiad" yn cyfeirio at y troseddau lle y cofnodwyd fod o leiaf un unigolyn "Wedi'i arestio". Mae data hyd at ddiwedd mis Mehefin 2018 yn dangos gostyngiad o 11.4 pwynt canran yn y gyfradd arestio, er fod lefelau arestio yn olrhain y lefelau a gofnodwyd yn agosach dros y misoedd diwethaf.

Mae'r data isod yn galluogi Aelodau'r Panel i weld y mathau o droseddau a gofnodwyd lle y cofnodwyd mai cyllell / llafn / offeryn miniog oedd yr Arf a Ddefnyddiwyd. Bydd Aelodau'n nodi fod cynnydd o 19.4% wedi bod mewn Troseddau â Chyllyll o gymharu chwarter 1 18/19 gyda chwarter 1 17/18. Bu'r cynnydd mwyaf mewn 'Ymosodiad gyda'r bwriad o achosi niwed difrifol'.

| Disgrifiad trosedd 'Trosedd a Chyllell' | Ch1 2018/19 | Ch1 2017/18 | % y Newid |
|---|---|---|---|
| Ymgais i lofruddio | 0 | 1 | -100.0% |
| Bygythiadau i ladd | 6 | 4 | 50.0% |
| Ymosodiad gyda bwriad i achosi niwed difrifol | 33 | 18 | 83.3% |
| Peryglu bywyd | 0 | 0 | - |
| Ymosodiad gydag anaf, ymosodiad ar sail hil neu grefydd a waethygwyd gydag anaf ac Ymosodiad gydag anaf ar gwnstabl | 23 | 26 | -11.5% |
| Ymosodiad Rhyw | 1 | 0 | - |
| Treisio | 0 | 2 | -100.0% |
| Lladrad | 17 | 16 | 6.3% |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **CYFANSWM** | 80 | 67 | 19.4% |

**Adran Dau: Diweddariadau Cyffredinol**

Yn yr adran hon rwy'n darparu crynodeb i'r Panel ynglŷn â'r prif bethau rwyf wedi'u gwneud ers cyfarfod diwethaf y Panel.

**Ymgysylltu a Chyfathrebu**

Rhan o fy rôl yw darparu gwybodaeth a galluogi'r gymuned i ymgysylltu â phlismona.

O 1 Mai 2018 tan 1 Awst 2018, cwrddais â'r unigolion / sefydliadau canlynol (yn ogystal â swyddogion a staff Heddlu Gogledd Cymru), ac wedi bod yn y digwyddiadau canlynol:

Mai

- Kenny Khan a Becca Brown;
- Ymweld â Phorthladd Caergybi;
- Sioe Nefyn;
- Cyfarfod gyda Chomisiynwyr eraill Cymru a Barnwr Gweinyddol Cymru;
- Digwyddiad Swyddfa Gartref ynghylch Ymgynghoriad Trais Domestig;
- Cyfarfod gyda Jenny Williams (Cyfarwyddwr Strategol Gofal Cymdeithasol ac Addysg yng Nghyngor Conwy) ynghylch datblygu 'Canolbwyntiau Cymunedol';
- Golwg Fanwl ar Bolisi "Cyffuriau ac Alcohol";
- Rhwydwaith Genedlaethol Gwrth Fasnachu mewn Pobl a Chaethwasiaeth Fodern;
- Cyfarfod Cyffredinol APCC;
- Seminar Iaith Gymraeg;
- Ymweld â Mosg Cyffordd Llandudno;
- Cwrdd â James Deakin ynglŷn â "Ystafelloedd Dos";
- Grŵp Cyfeirio Ymchwiliad Annibynnol i Gam-drin Rhywiol Cymru;
- Sioe deithiol y Lluoedd - Gogledd-orllewin Lloegr;
- Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru;

Mehefin

- Dathliadau 50fed Pen-blwydd Kaleidoscope, Tŷ'r Cyffredin, Llundain;
- Araith yn y digwyddiad COPACC, Daventry;
- Noson Wobrau Cymunedol OPCC;

Gorffennaf

- Ymweld â Dinbych yn ei Blodau;
- Cyfarfod Grŵp Sefydlog System Cyfiawnder Troseddol a Dioddefwyr APCC, Llundain;
- Gwobrau Dewrder yr Heddlu 2018, Llundain;
- Cyfarfod o Fwrdd APCC, Llundain;
- Golwg Fanwl ar y Polisi ynghylch Brexit;
- Rhwydwaith Genedlaethol Gwrth Fasnachu mewn Pobl a Chaethwasiaeth Fodern;
- Cyfarfod Cyffredinol APCC, Llundain;
- Diwrnod Ymgyfarwyddo â Titan, Warrington;
- Cyfarfod chwarterol Cymdeithas Cynghorau Tref Gogledd a Chanolbarth Cymru;
- Sioe Frenhinol Cymru;
- Ymweld â Sied Ieuenctid Dinbych;

- Y Bwrdd Gweithredol Strategol;
- Diwrnod Contract Camddefnyddio Sylweddau;
- Cyfarfod gyda chynrychiolwyr o Undeb Amaethwyr Cymru.

Ers cyfarfod diwethaf y Panel, yn ogystal â chyfarfod gyda chynrychiolwyr y gymuned, partneriaid a'r cyhoedd, rwyf i a fy Nirprwy wedi cynnal nifer o weithgareddau cyfryngau allweddol. Mae'r rhain yn cynnwys:

**Y Prif Gwnstabl i Ymddeol**

**Penaethiaid heddlu'n annog Llywodraeth y Deyrnas Unedig i feddwl eto am ystafelloedd cymryd cyffuriau, i arbed bywydau a lleihau trosedd**

**Pennaeth heddlu yn ymgyrchu i Gymru gymryd rheolaeth dros blismona**

**Dim osgoi cyfrifoldeb gan y banciau, medd pennaeth heddlu**

**Gorsaf heddlu yn mynd am hat-tric o wobrau**

**Pennaeth heddlu eisiau mwy o unedau profi cyffuriau symudol mewn gwyliau a chlybiau cerddoriaeth**

**Gwarchodwyr y ddalfa**

**Cyllid gan bennaeth heddlu yn osgoi argyfwng i elusen trais a cham-drin rhywiol**

**Chwilio am wirfoddolwyr i arwain y ffordd wrth gadw 'cyfarth a threfn'**

**Gwobr i Delwyn – rheolwr cynghrair cenhedloedd pêl-droed**

**Arwyr tawel yn cael eu cydnabod am waith gyda dioddefwyr cam-drin yn y cartref**

**Tasglu arbennig yn cael ei anrhydeddu am ymladd cyffur peryglus**

**Bydd gadael Ewrop heb gytundeb yn peryglu pobl gogledd Cymru**

**Llawenydd Joy gyda'i gwobr am hwb £25 miliwn gorsaf heddlu i economi'r rhanbarth**

**Noson Wobrau Cymunedol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd**

Cynhaliwyd Noson Wobrau Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd ym mis Mehefin yng Ngwesty'r Kinmel Manor yn Abergele. Pwrpas y gwobrau yw cydnabod pobl neu grwpiau sy'n helpu'r heddlu i gadw eu cymdogaeth yn heddychlon ac yn lle diogel i fyw a gweithio ynddo ac yn helpu wrth ailsefydlu troseddwyr.

Rwyf wedi profi'n uniongyrchol y gwaith caled a'r ymdrech mae rhai aelodau o'r gymuned wedi ei gwneud i helpu'r heddlu a gwneud Gogledd Cymru yn lle gwell, mwy diogel i fod ynddo. Roedd felly'n anrhydedd i wobrwyo pobl a grwpiau sydd wedi gwneud gwahaniaeth go iawn i fywydau pobl sy'n byw ac yn gweithio yn eu hardal.

Mae'r Wobr Cyflawniad Eithriadol yn wobr arbennig, a roddir i gydnabod cyfraniadau eang i fywyd cyhoeddus a'r gymuned, gan weithio yng Ngogledd Cymru i helpu atal trosedd a rhoi cyfleoedd cymorth. Mae hon yn wobr yn benodol i gydnabod pan fo rhywun wedi gwneud cyfraniad sylweddol ac hirdymor er budd y gymdeithas yn gyffredinol. Brenda Fogg, o Hope Restored yn Llandudno oedd yr enillydd eleni.

Mae Hope Restored yn elusen o Landudno sy'n gweithredu o Eglwys Gymunedol Lighthouse ar Great Orme Road. Cafodd ei ddechrau gan Brenda Fogg yn 2010 i gefnogi pobl ddigartref. Ers hynny, mae'r elusen wedi gweithio'n effeithiol dan arweiniad Brenda. Mae'n cael ei chefnogi gan wirfoddolwyr ac wedi llwyddo i helpu dros 500 o bobl ers 2010.

Roedd cyfanswm o 10 gwobr i gyd gan gynnwys y Wobr Cefnogwr Cymunedol, y Wobr Cefnogwr Dioddefwyr, y Wobr Adsefydlu, y Wobr Gydraddoldeb ac Amrywiaeth, y Wobr Plant a Phobl Ifanc, Gwobr Cyflawniad Eithriadol Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, y Wobr Cymorth Cam-Drin Domestig, y Wobr Ymyrraeth Cyffuriau, y Wobr Gwerth Cymdeithasol a'r Wobr Cefnogwr Gwrth Gaethwasiaeth.

Mae manylion yr holl enillwyr ar gael ar fy ngwefan.

**Y Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd:**

O 1 Mai 2018 tan 1 Awst 2018, cwrddodd y Dirprwy Gomisiynydd â'r unigolion / sefydliadau canlynol (yn ogystal â swyddogion a staff Heddlu Gogledd Cymru), ac wedi bod yn y digwyddiadau canlynol:

- Cyfarfod gyda 3 Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd arall Cymru;
- Uned Amrywiaeth Heddlu Gogledd Cymru;
- Seminar yr Iaith Gymraeg;
- Bwrdd Cymunedau Mwy Diogel Gogledd Cymru;
- Pwyllgor Hyder a Safonau Moesol;
- Cathryn Williams, Gweithiwr Cymdeithasol Cam-fanteisio'n Rhywiol Ar Blant
- Seremoni Wobrau'r Comisiynydd;
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Gogledd Cymru;
- Cynhadledd Creu Gweledigaeth Cymru Gyfan;
- Grŵp Merched mewn Cyfiawnder Cymru Gyfan;
- Scott McPherson, y Swyddfa Gartref;
- Bwrdd Arweinyddiaeth Rhanbarthol Gogledd Cymru;
- Ysgrifennydd y Cabinet;
- Hannah Griffith, Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol;
- Grŵp Rhanbarthol Rheoli Integredig Troseddwyr Cymru;
- Gweithdy Atgyfeirio IOPC Rhanbarthol;
- Cyfarfod trawsbleidiol ynghylch Bwrdd Plismona Cymru;
- Cynhadledd Partneriaeth Caethwasiaeth Fodern Genedlaethol;
- Mewnbwn i recriwtiaid newydd;
- Cyfarfod Cyffredinol APCC;
- Grŵp Tasg a Gorffen Lleihau Carcharu Merched
- Y Bwrdd Gweithredol Strategol;
- Cyfarfod â'r CRC a'r NPS ynghylch eiddo a gymeradwywyd i ferched;
- Cyfarfod craffu PSD.

**Comisiynu**

Mae pob prosiect a gomisiynwyd ar y trywydd cywir ac ni nodwyd unrhyw risgiau.

Bydd Cyfarfod Comisiynu Rhanbarthol yn cael ei gynnal ar 13 Awst i drafod y Gwasanaeth Ymgynghorol Trais Domestig Annibynnol Rhanbarthol.

Cyfarfu'r Panel Ymyrraeth Gynnar ar 14 Mai i werthuso a thrafod y prosiectau sydd wedi eu cyflwyno. Mae lefel y diddordeb wedi bod yn galonogol iawn a chyflwynwyd 36 o geisiadau cynigion a arweiniodd at hawliad am gyllid o ychydig mwy na £600,000. Y cyfanswm sydd ar gael yw £100,000.

Aethpwyd drwy’r ceisiadau a gofynnwyd i 6 ymgeisydd gyflwyno achos busnes llawn. Mae proses werthuso yn cael ei chynnal ar yr achosion busnes hyn ac rwy’n disgwyl gwneud penderfyniad ynghylch y ceisiadau llwyddiannus yn fuan.

Yn ystod y cyfnod hwn, cynhaliwyd archwiliad mewnol llwyddiannus ar y Tîm Comisiynu.

Mae’r Fframwaith Gomisiynu yn cael ei hadolygu ar hyn o bryd.

**Dioddefwyr**

Cyfarfu Bwrdd Llywodraethu'r Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr ar 25 Gorffennaf. Mae’r Ganolfan Gymorth i Ddioddefwyr wedi bod i nifer o sioeau gwledig ar draws y rhanbarth dros fisoedd yr haf i farchnata a thynnu sylw’r cyhoedd at y gwasanaethau sydd ar gael yn y ganolfan.

Yn ystod y cyfnod adrodd, cefnogwyd 10,236 o ddioddefwyr drwy’r ganolfan.

**Cofnodi Troseddau**

Yn dilyn yr Archwiliad Uniondeb Data Troseddau HMICFRS 2017, mae’r Grŵp Defnyddwyr Cofnodi Troseddau (CRUG), y mae fy swyddfa yn cael ei chynrychioli arni, wedi bod yn monitro cynnydd y cynllun gweithredu. Un o’r prif feysydd pryder oedd yr angen i Heddlu Gogledd Cymru gofnodi pob trosedd a riportiwyd o fewn 24 awr. Mae proses newydd wedi ei chyflwyno rŵan sydd wedi lleihau’r amserlen gofnodi troseddau i lai na 24 awr. Bydd hyn yn parhau i gael ei fonitro drwy CRUG hyd nes fod aelodau yn sicr fod y broses newydd hon yn gweithio’n llwyddiannus.

**Y Wybodaeth Ddiweddaraf am HMICFRS**

Oherwydd newidiadau i’r modd y mae’r Arolygiaeth Cwnstabliaeth Ei Mawrhydi yn arolygu lluoedd, ar ôl cyflwyno’r Datganiadau Rheoli Lluoedd ym mis Mai 2018, ni fu unrhyw ddiweddariad yn ymwneud â gweithgarwch yn ymwneud â'r HMICFRS.

**Camddefnyddio Sylweddau ac ymgynghori**

Ar 21 Awst cynheliais weithdy Rhaglen Gwyriad Gogledd Cymru yn yr OpTIC yn Llanelwy ar gyfer gwasanaethau trydydd sector a gwasanaethau cyhoeddus sy’n ymwneud â throseddwyr lefel isel. Roedd y gweithdy yn llwyddiant mawr gyda dros 40 o bobl yn bresennol ac yn gwneud eu cyfraniadau o ran yr hyn roeddent yn teimlo a fyddai’n gweithio orau yng Ngogledd Cymru. Bydd yr hwylusydd sy’n

bresennol yn y gweithdy yn cynnig adroddiad a fydd yn cynnwys y canfyddiadau allweddol. Bydd yr adroddiad hwn yn cael ei rannu gyda'r Panel unwaith y bydd wedi ei dderbyn.

Yn dilyn yr adborth o'r gweithdy, bydd gwaith yn dechrau ar ddatblygu cynllun gwyriad a fydd yn cynnwys gwyriad tymor byr tebyg i raglen Addysg Bryste a rhaglen wyro ddwys ar gyfer y rhai hynny sy'n byw bywydau caotig (yn debyg i'r rhaglen Checkpoint yn Swydd Durham). Bydd rhagor o wybodaeth am y prosiect hwn yn cael ei gynnwys gyda'r wybodaeth ddiweddaraf i'r panel yn y dyfodol.

**Cydraddoldeb ac Amrywiaeth**

Mae fy Swyddfa ynghyd ag Uned Amrywiaeth y Llu ar hyn o bryd yn diweddaru ein cynllun cydraddoldeb strategol ar y cyd. Gweler isod y ddolen i'r ymgynghoriad ar fy ngwefan. Gwahoddir Aelodau'r Panel i roi eu hadborth eu hunain drwy'r ymgynghoriad hwn ynghylch yr hyn y maent yn credu y dylai ein blaenoriaethau cydraddoldeb fod dros y 4 blynedd nesaf.

http://www.northwales-pcc.gov.uk/Document-Library/Accountability/Equality/Equality-Objectives-Ymgynhoriad.pdf

**Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb**

Rwy'n gweinyddu'r gronfa hon ac yn gwahodd ceisiadau ar gyfer prosiectau i godi ymwybyddiaeth am droseddau casineb. Eleni, cynhelir Wythnos Ymwybyddiaeth o Droseddau Casineb rhwng 13 a 21 Hydref. Rwy'n awyddus i ariannu prosiectau a chynlluniau cymunedol lleol sy'n hyrwyddo ymwybyddiaeth o droseddau casineb. Mae gen i gyllid gwerth £5,000 (drwy Lywodraeth Cymru) i'w ddosbarthu.

**Gohebiaeth**

Ffigurau gohebiaeth o 1 Mai hyd at 1 Awst 2018:

| **Categori Gohebiaeth** | **Nifer** |
|---|---|
| Adborth penodol ynglŷn â'r gwasanaeth plismona | *60** |
| Adborth cyffredinol ynglŷn â'r gwasanaeth plismona | 34 |
| Cwynion a atgfeiriwyd at PSD | 3 |
| Materion staff | 1 |
| Gohebiaeth gyffredinol | 479 |

* mwy nac un darn o ohebiaeth a dderbyniwyd gan nifer o unigolion

### Atodiad 1:

Violence Strategy-
Call for Evidence.pdf

### Atodiad 2:

Response to Home
Affairs Select Commit

**<u>Response to Home Affairs Select Committee on Modern Slavery – North Wales Police and Crime Commissioner Observations</u>**

Scope of questions

- The current scale and nature of modern slavery
- The impact of the Modern Slavery Act 2015
- How to increase understanding and reporting of modern slavery offences
- The impact of 'county lines', and how this issue can be tackled
- What success in tackling modern slavery would look like, and what benchmarks should be used to measure progress
- Current levels of support for victims, and how it can be improved
- How the police and immigration system's response to modern slavery offences could be improved
- What the priorities for the new Independent Anti-Slavery Commissioner should be

---

**Current scale and Nature**

Modern slavery is a hidden crime, the more resources you put into it, the bigger the problems seems to be. Areas that do not put the resources into finding modern slavery, do not see they have a problem. The number of NRMs generated is directly impacted by the resources put in to finding modern slavery by police forces.

Another blocker to seeing the size and scale of modern slavery in the UK is that many victims do not see themselves as victims and don't come forward.

Anecdotally modern slavery is a far bigger problem than what the recorded figures show.

Due to general lack of knowledge and awareness amongst staff and public, the scale and nature is still unknown. Since training, we have seen an increase in referrals amongst staff, partners and members of the public, but there is still a long way to go with awareness and will take some years before we get an indication of the nature and scale within North Wales.

**Impact of the Modern Slavery Act 2015**

The Modern Slavery Act is a fantastic piece of legislation. It is now being used in a positive way for matters that it was not designed for but can help with, such as child sexual exploitation and County Lines, which is really good news. Modern slavery charges are easier to bring/prove under this legislation. County Lines victims can go into the NRM.

The legislation also led to the use of Independent Child Trafficking Advocates (ICTAs) which have been used in Wales as part of a pilot. ICTAs have resulted in many more children being protected.

There are also useful powers under the act such as Risk Orders which allow restrictions on movement without a conviction.  Some forces need to consider better use of the legislation. Every force should have a dedicated Modern Slavery Unit with specialist knowledge around modern slavery and the legislation.

There should be improved statutory guidance for the Modern Slavery Act

The impact has resulted in the force having to have dedicated staff – MDS unit to raise awareness, ensure conformity to the Act and Home Office Crime Recording.  The act has also enabled victims to have access to support quickly as the competent authority recognises their circumstances. This in turn has increased demand on Local Authority and support services as the referrals and strategy discussions increase, especially with regards to children and Child Criminal Exploitation.  Previously victims would have been treated as suspects and prosecuted.  More information is being shared to partners

**How to Increase Understanding of Modern Slavery**

It would be obvious to use third sector providers to help increase the general understanding and awareness of modern slavery in the UK.  However, there are a high number third sector organisations who deal with modern slavery.  There are too many and there is little or no governance over what they do and the services they provide.  Some, however, are excellent and provide a great and valuable service – how can this be monitored and measured.

In addition there is a need to increase the number of authorised first responders within the third sector.  The NHS need to be a statutory first responder.  It is an anomaly that this is not the case, theirs is a very important role.

Awareness raising amongst professionals who are most likely to come into contact with the most vulnerable in society and therefore more susceptible to exploitation, eg Homeless, Immigration, Medical Staff, Royal Mail and Local Authority.  Increase social media interaction with public. Increase knowledge amongst force solicitors who will be attending court to secure trafficking orders. Continue social media campaigns with public and Modern Slavery Helpline.

**<u>Impact of County Lines</u>**

The impact of County Lines is huge.  Forces need to make extensive use of the legislation for modern slavery and human trafficking.

County Lines has always been an issue but since the introduction of the Act, the now would be suspects are offered support and given an opportunity to access help if they have been exploited. When investigation a county lines drugs investigation with children suspected of exploitation, an Modern Slavery Investigation will also run in tandem.  Unfortunately, a lot of the children involved will not engage due to fear and without the defence putting forward S45 in court, even when there is a positive NRM then Law Enforcement are unable to intervene and a victimless prosecution is difficult with no evidence and just intelligence for their parties.   We also have difficulty around safeguarding and OCGs often have a long reach into the victim's friends and families who are threatened / subjected to serious violence. The issue needs tackling within education – school. North Wales police are in the process of making a drama which will tie in with a school programme,

delivered by School liaison officers.  Apply for the Early Intervention Youth Fund which has just been launched.

**What does success in tackling modern slavery look like?**

An increase in NRMs, more victims safeguarded, more convictions, longer prison sentences for offenders, increase amount of money obtained through forfeiture  (NB modern slavery is a cash rich crime – human being can be sold over and over again).

Where money is seized as a result of modern slavery, funding should come back in to police forces. Forfeiture should fund Force responses to modern slavery.

More of the money received through forfeiture and POCA should come back to police forces and the CPS.

**Support for Victims**

Every force should have a victim support officer dedicated to modern slavery.

The NRM period should be extended to 60 days.

Survivor Care Pathway Wales that identifies victims to the Government's National Referral Mechanism (NRM) process - the pathway process is defined and effective but regarding victims more resource is required for first responder charities to cover every time a victim is found and needs their presence, especially out of hours cover (Fri after 5pm to Mon 9am).

***Pre NRM***

Awareness around Modern Slavery is slowly being disseminated through the police and local authorities but the message needs to keep being reinforced through bulletins, training and Single Points of Contact (SPOCs) etc to get to front line staff.

One area to highlight to local police would be current case studies in their areas so they can build up profiles of victims. For local authorities, highlighting with them that a potential victim might need some support in temporary accommodation (few days) to get their full story rather than issuing tickets to move them on.

***Main NRM support***

Victim support during the 45 days NRM process is good based on feedback from victims around the country but outreach provision after the 45 day period isn't particularly well defined and a bit of a postcode lottery on where the victim ends up in the UK. Some victims become destitute but others move on well.

There are pilot studies currently focussing on the effects of increased care of up to 12 months funded by the home office and a UK bill going through parliament to support the increased amount of care and other things. The provision of 12 month support will improve the chances of individuals with complex needs to move on well.

If the Home Office approve the 12 month support, this should be rolled out across the country not a phased roll out

The support should be well funded to help with things like mental health rehabilitation. This should be outside of the NHS system if required. e.g. funded one to one private talking therapies to deal with PTSD rather than just NHS group therapies.

**How can police and immigration response to MS offences be improved?**

There is a real problem around trust and Brexit has exacerbated this. People are afraid of being highlighted for immigration offences and so will not seek help from the police. Central government need to address how they tackle immigration in order to demonstrate that people can trust the authorities.

There should be additional resources for financial investigations units for modern slavery work/investigations.

Employment Agencies should be responsible for reporting suspected practises in the industry. They should have more scope to share information. There should be a legal responsibility on them to inform police of concerns/suspicions in regard to particular transactions and individuals. The onus for receiving information should not be simply incumbent on the police to ask.

**Priorities for Anti-Slavery Commissioner**

- Facilitate more named first responder organisations
- Support changes to forfeiture and POCA contributions
- Enable easier access to modern slavery resources – there are too many organisations with disparate information, there needs to be one reliable point of contact and source of information.
- Facilitate better co-working between central and devolved government to avoid duplication.

## Adroddiad gan Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd

**Teitl:** **Y wybodaeth ddiweddaraf am Gyllideb 2018/19 (ar 31 Gorffennaf 2018)**

**Cyfarfod:** **Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru, 24 Medi 2018**

**Awdur:** **Kate Jackson, Prif Swyddog Cyllid**

### 1. Cyflwyniad

1.1 Diben y papur hwn yw darparu'r wybodaeth ddiweddaraf i aelodau'r panel ynglŷn â:

- Sefyllfa alldro ar gyfer y flwyddyn ariannol a ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2018
- Cyllideb plismona Gogledd Cymru ar 30 Mehefin 2018 (mis 3).

### 2. Argymhellion

2.1 Nodi'r adroddiad.

### 3. Y wybodaeth ddiweddaraf am alldro 2017/18

3.1 Cafodd cyllideb refeniw net ar gyfer Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ei chymeradwyo gan Banel yr Heddlu a Throsedd ar 23 Ionawr 2017 yn £143.217m. Roedd hyn yn cynnwys cyllideb net o £0.793 miliwn ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd, a £1.262 miliwn net ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir, a throsglwyddiad net o'r cronfeydd wrth gefn o £0.295m (ar ôl y diwygiadau).

3.2 Roedd y sefyllfa refeniw yn cynnwys trosglwyddiad net o'r cronfeydd wrth gefn o £0.533m (tanwariant o £0.828m o gymharu â'r gyllideb ddiwygiedig) sy'n agos at y sefyllfa a adroddwyd i Banel yr Heddlu a Throsedd ar ddiwedd chwarter 3.

3.3 Y gyllideb gyfalaf yn y Cynllun Ariannol Tymor Canolig oedd £20.341m. Y gwariant cyfalaf yn 2017/18 oedd £18.422m, gyda'r amrywiad yn deillio o amseru dosbarthiad cerbydau a phrosiectau TG. Bydd y gyllideb sy'n weddill yn cael ei chario ymlaen i 2018/19. Tynnwyd £10.583m o gronfeydd refeniw wrth gefn i ariannu gwariant cyfalaf, gyda £3.031m pellach o dderbyniadau cyfalaf yn cael eu defnyddio. Ariannwyd y gweddill gyda Grant Cyfalaf y Swyddfa Gartref (£0.462m), cyfraniad refeniw uniongyrchol (£1.604m) a benthyca mewnol (£2.742m).

3.5 Rhoddir crynodeb o'r cyllidebau a'r alldro isod. Gweler y manylion llawn yn y Datganiad Cyfrifon

| 2017/18 | Cyllideb Wreiddiol £'000 | Cyllideb Ddiwygiedig £'000 | Alldro £'000 | Amrywiant £'000 |
|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | |
| Gweithwyr | 124,151 | 126,385 | 126,591 | 206 |
| Eiddo | 7,718 | 8,138 | 7,904 | (234) |
| Cludiant | 4,234 | 4,221 | 3,418 | (803) |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 19,740 | 20,639 | 21,413 | 774 |
| Taliadau Dyledion a Chyfraniadau at Gyfalaf | 1,864 | 1,864 | 2,108 | 244 |
| Arian wrth Gefn | 800 | - | - | - |
| Cronfa diogelwch cymunedol | 1,166 | 1,262 | 1,268 | 6 |
| **Cyfanswm Gwariant** | **159,673** | **162,509** | **162,702** | **193** |
| | | | | |
| **Incwm** | **(16,681)** | **(18,997)** | **(20,018)** | **(1,021)** |
| | | | | |
| **Trosglwyddo i / (o) gronfeydd wrth gefn** | **225** | **(295)** | **533** | **828** |
| | | | | |
| **Cyfanswm y Gwariant Net** | **143,217** | **143,217** | **143,217** | **-** |
| | | | | |
| **Cyllid** | | | | |
| Grantiau | (71,728) | (71,728) | (71,728) | - |
| Praesept | (71,489) | (71,489) | (71,489 | - |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(143,217)** | **(143,217)** | **(143,217)** | **-** |

3.6 Sefyllfa'r cronfeydd wrth gefn yw:

| Cronfeydd wrth gefn defnyddiadwy | 31/3/17 Gwirioneddol £m | 31/3/18 Gwirioneddol £m | 31/3/19 Rhagamcanol £m | 31/3/20 Rhagamcanol £m | 31/3/21 Rhagamcanol £m | 31/3/22 Rhagamcanol £m |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cronfa Wrth Gefn Derbyniadau Cyfalaf | 3.663 | [a]1.487 | 1.599 | 1.025 | 0.748 | 0.748 |
| Balans y Gronfa Gyffredinol | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 | 5.189 |
| Cronfeydd Wrth Gefn A Glustnodwyd | 29.256 | [b]19.206 | 13.732 | 12.976 | 12.941 | 12.823 |
| **Cyfanswm y cronfeydd defnyddiadwy** | **38.108** | **25.882** | **20.520** | **19.190** | **18.878** | **18.760** |

[a]Y symudiad o £2.176 yw'r sefyllfa net ar ôl cyllid cyfalaf o £3.031m a derbyniadau cyfalaf o £0.855m
[b]Y symudiad o £10.050m yn y flwyddyn yw net o £10.583m a dynnwyd i ariannu gwariant cyfalaf, a £0.533m (net) a drosglwyddwyd o gronfeydd wrth gefn i gronfeydd refeniw.

## 4. Y wybodaeth ddiweddaraf am gyllideb 2018/19

4.1 Cymeradwywyd cyllideb net o £146.467m ym Mhanel yr Heddlu a Throsedd ar 22 Ionawr 2018. Mae hyn yn cynnwys £0.803m ar gyfer Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu

a Throsedd a £1.467m ar gyfer Cronfa Diogelwch Cymunedol. Gellir canfod rhagor o wybodaeth ar wefan Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

- Gweithwyr – rhagwelir tanwariant o £0.437 miliwn.

Dyma effaith net nifer o ffactorau, y mwyaf arwyddocaol o'r rhain yw cyflog staff yr heddlu (tanwariant a ragwelir o £0.489 miliwn). Mae hyn o ganlyniad i arbedion trosiant yn bennaf.

- Cludiant – tanwariant rhagamcanol o £0.315 miliwn

Mae tanwariant o ran costau ceir a theithio mewn perthynas â gostyngiad yn nifer y cerbydau defnydd personol (PIV). Mae arbediad hefyd mewn perthynas â chost rhagamcanol Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu. Mae ad-daliad Gwasanaeth Awyr Cenedlaethol yr Heddlu yn cael ei adolygu, ac felly ni ddisgwylir y gellir cyflawni'r arbediad a ddisgwylir eleni bob tro.

- Cyflenwadau a Gwasanaethau – gorwariant rhagamcanol o £0.175 miliwn
  - Mae gorwariant rhagamcanol o £0.083m mewn offer, yn seiliedig ar lefelau gwariant yn y gorffennol.

4.2 Ar hyn o bryd mae rhagamcan taliadau cyfalaf, taliadau wrth gefn a'r gronfa diogelwch cymunedol yn unol â'r gyllideb.

4.3 Rhoddir crynodeb o'r cyllidebau a'r rhagamcanion isod.

| | Cyllideb Wreiddiol £'000 | Cyllideb 31 Gorffennaf 2018 £'000 | Gwirioneddol 31 Gorffennaf 2018 £'000 | Rhagamcan hyd Ddiwedd y Flwyddyn £'000 | Rhagamcan o'r Amrywiant £'000 |
|---|---|---|---|---|---|
| **Gwariant** | | | | | |
| Gweithwyr | 127,721 | 127,620 | 43,194 | 127,183 | (437) |
| Eiddo | 7,783 | 7,839 | 2,354 | 7,844 | 5 |
| Cludiant | 3,865 | 3,849 | 1,158 | 3,534 | (315) |
| Cyflenwadau a gwasanaethau | 20,144 | 20,343 | 6,019 | 20,518 | 175 |
| Taliadau Dyledion a Chyfraniadau at Gyfalaf | 1,864 | 1,864 | 16 | 1,864 | - |
| Arian wrth Gefn (gweler uchod) | 800 | 800 | - | 800 | - |
| Cronfa diogelwch cymunedol | 1,467 | 1,467 | 23 | 1,467 | - |
| **Cyfanswm Gwariant** | **163,644** | **163,782** | **52,764** | **163,210** | **(572)** |
| | | | | | |
| **Incwm** | **(17,298)** | **(17,335)** | **(5,778)** | **(17,366)** | **(31)** |
| | | | | | |
| **Symudiadau yn y Cronfeydd Wrth Gefn** | **121** | **20** | **-** | **20** | **-** |
| | | | | | |
| **Cyfanswm y Gwariant Net** | **146,467** | **146,467** | **46,986** | **145,864** | **(603)** |
| | | | | | |
| **Cyllid** | | | | | |
| Grantiau | (71,728) | (71,728) | (24,246) | (71,728) | - |

| | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|
| Praesept | (74,739) | (74,739) | (20,058) | (74,739) | - |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(146,467)** | **(146,467)** | **(44,304)** | **(146,467)** | **-** |
| | | | | | |
| **Tanwariant net** | | | | | **(603)** |

4.4 Mae'r uchod yn cynnwys incwm a gwariant yn ymwneud â'r grant Gwasanaethau Dioddefwyr gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder. Mae £808,731 wedi cael ei ddyrannu i Gomisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru. Mae £787,821 wedi'i glustnodi ar gyfer comisiynu gwasanaethau dioddefwyr, gyda'r gweddill yn cyfrannu at ein costau cysylltiedig. Mae gwasanaethau a gomisiynir yn cynnwys: Canolfan Cymorth Dioddefwyr, IDVA a ISVA.

4.5 Hefyd wedi ei gynnwys uchod mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd. Y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer y flwyddyn yw £801,643. Fel ar 31 Gorffennaf, roedd gwariant yn £254,326, a'r alldro a ragwelwyd oedd £784,909, sy'n unol â'r gyllideb, ond yn destun newid.

4.6 Y gyllideb ddiwygiedig ar gyfer comisiynu gwasanaethau oedd £53,368. Ar 31 Gorffennaf y gwariant oedd £25,013, gyda rhagamcan net o £52,318.

## 4. Cyfalaf

4.1 Y rhaglen gyfalaf wreiddiol ar gyfer 2018/19 oedd £11.346m. Gan ystyried y llithriant a mân ychwanegiadau a dileadau, mae hyn yn cynyddu i £13.369miliwn.

| Cynllun | Gwariant wedi'i gario drosodd £'000 | Cyllideb 2018/19 (ailbroffiliwyd) £'000 | Gwariant 2018/19 at 31.07.18 £'000 | Cyllideb - Blynyddoedd i ddod £'000 | Cyfanswm cyllideb £'000 | Gwariant at 30.06.18 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Cyfleuster newydd Llai Wrecsam | 18,651 | 2,649 | 1,844 | - | 21,300 | 20,495 |
| Cyfleuster canol tref Wrecsam | 246 | 1,622 | 235 | - | 1,868 | 481 |
| Adeilad newydd Llandudno | 2,742 | 63 | - | - | 2,805 | 2,742 |
| Ystadau eraill | 1,049 | 3,575 | 2,827 | 6,406 | 11,030 | 3,876 |
| Cerbydau ac offer | 8,161 | 2,337 | 300 | 5,755 | 16,253 | 8,461 |
| TG a Chyfathrebu | 5,445 | 3,118 | 326 | 3,869 | 12,432 | 5,771 |
| **Cyfanswm Rhaglen Gyfalaf** | **36,294** | **13,364** | **5,532** | **16,030** | **65,688** | **41,826** |

**5 Goblygiadau**

| | |
|---|---|
| Amrywiaeth | Dim goblygiadau ar wahân o ran amrywiaeth |
| Ariannol | Pwrpas yr adroddiad hwn yw rhoi gwybod i Banel yr Heddlu a Throsedd am y sefyllfa monitro refeniw a chyfalaf fel ag y mae ddiwedd Gorffennaf 2018.<br><br>Mae cyllid digonol yn hanfodol i gyflawni cynllun yr heddlu a throsedd ac i ddiwallu ein gofynion cyfreithiol. |
| Cyfreithiol | Dim goblygiadau cyfreithiol ar wahân |
| Risg | Dim goblygiadau risg ar wahân |
| Cynllun yr Heddlu a Throsedd | Dim goblygiadau heddlu a throsedd ar wahân. |

| | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I'R:** | Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru |
| **DYDDIAD:** | 24 Medi 2018 |
| **SWYDDOG CYSWLLT:** | Richard Jarvis - Swyddog Arweiniol ac Ymgynghorydd Cyfreithiol Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru<br><br>Dawn Hughes – Uwch Swyddog Cefnogi'r Panel Heddlu a Throsedd |
| **TESTUN:** | Crynodeb o'r Cwynion a Gafwyd |

**1. PWRPAS YR ADRODDIAD**

1.1 Pwrpas yr adroddiad yw darparu crynodeb o'r cwynion sydd wedi eu derbyn yn ymwneud â'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd, Mr. Arfon Jones a'r Dirprwy Gomisiynydd (Ann Griffith.

**2. CRYNODEB GWEITHREDOL**

2.1 Mae'r Panel Heddlu a Throsedd wedi derbyn 7 cwyn cofnodadwy yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ac 1 yn erbyn y Dirprwy Gomisiynydd yn ystod eu cyfnod yn y swydd.

2.2 O'r 8 cwyn a gafwyd, mae 2 gwyn wedi cau a rhoddwyd gwybod am y canlyniadau yn flaenorol i'r Panel Heddlu a Throsedd. Mae Atodiad 1 yn rhoi manylion 3 chwyn sydd wedi'u datrys ers yr adroddiad diwethaf, a 3 chwyn a gafwyd lle nad oes angen camau pellach, gan eu bod yn gamddefnydd o'r drefn gwyno fel y nodwyd yn y Rheoliadau.

2.3 Ar hyn o bryd, mae 1 cwyn yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd sydd heb ei gategoreiddio ar hyn o bryd, gan fod angen rhagor o wybodaeth gan yr achwynydd.

2.5 Er bod gan Banel yr Heddlu a Throsedd y cylch gwaith i ddelio â chwynion yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd yn unig, mae Panel yr Heddlu a Throsedd wedi derbyn 5 cwyn ynghylch Heddlu Gogledd Cymru yn y cyfnod adrodd hwn (Ionawr-Medi 2018). Mae'r cwynion hyn wedi cael eu hanfon ymlaen at yr Adran Safonau Proffesiynol ac anfonwyd copïau at Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

## 3. ARGYMHELLIAD(ION)

3.1 Bod Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru yn nodi'r adroddiad a'r camau gweithredu a gymerwyd mewn perthynas â'r cwynion a gafwyd.

## 4. GWYBODAETH GEFNDIROL

4.1 Mae gan Banel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru gyfrifoldeb statudol o ran trin a phenderfynu ar gwynion penodol a wnaed yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a Dirprwy Gomisiynydd yr Heddlu a Throsedd.

4.2 Yn dilyn ymgynghoriad gydag Aelodau'r Panel, adolygodd y Panel Heddlu a Throsedd ei Drefn Gwyno ar 12 Ebrill 2018 a dirprwyo cyfrifoldebau statudol y Panel ynglŷn ag ymdrin â rhai cwynion a wnaed yn erbyn y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r Dirprwy Gomisiynydd Heddlu a Throsedd i Is-bwyllgor Cwynion fel y caniateir gan y ddeddfwriaeth; mae aelodaeth yr Is-bwyllgor Cwynion yn cynnwys y Cadeirydd, Is-gadeirydd ac un Aelod Etholedig y Panel Heddlu a Throsedd.

4.5 Er bod y Panel wedi ei wahardd yn benodol rhag ymchwilio i'r cwynion yn rhinwedd y darpariaethau statudol, caniateir i'r Panel annog, hwyluso a chynorthwyo i ddatrys cwynion yn anffurfiol. Fel rhan o'r broses hon, gofynnodd y Swyddog Arweiniol am ragor o wybodaeth ac eglurhad gan y Comisiynydd a'i Swyddfa ynghylch y cwynion a dderbyniwyd.

4.7 Mae Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd yn gyfrifol am ddelio â chwynion ynglŷn â'r Prif Gwnstabl. Caiff cwynion eu cofnodi yn unol â Deddf Diwygio'r Heddlu 2002 a Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011. Bydd ystadegau yn cael eu cyhoeddi yn flynyddol ac yn chwarterol gan Gomisiwn Cwynion Annibynnol yr Heddlu – mae'r ystadegau yn darparu manylion am gyfanswm y cwynion a gafwyd gan bob llu heddlu.

## 5. YMGYNGHORI

5.1 Ymgynghorwyd â’r Panel Cwynion, ac yn fwy diweddar, yr Is-bwyllgor Cwynion, a Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd mewn perthynas â'r cwynion a dderbyniwyd.

## 6. ADNODDAU

6.1 Er bod y Swyddfa Gartref yn darparu grant i'r Awdurdod Lletyol ar gyfer costau gweinyddol, mae’r gofyniad i ddatrys cwynion nad ydynt yn droseddol yn erbyn Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd a’r Dirprwy Gomisiynydd yn cymryd swm anghymesur o amser swyddog.

## 7. RISG

7.1 Er mwyn cydymffurfio â'r Weithdrefn Gwyno, mae angen crynhoi bob cwyn mewn adroddiad (fel y gellir rhoi gwybod amdanynt yn gyhoeddus) at ddibenion monitro.

## 8. RHESWM DROS YR ARGYMHELLIAD

8.1 Hysbysu'r Panel Heddlu a Throsedd o nifer y cwynion a ddaw i law yn rheolaidd, fel sy’n ofynnol gan ddeddfwriaeth.

ATODIAD 1

## DIWEDDARIAD CWYNION AR GYFER CYFNOD ADRODD IONAWR - MEDI 2018

| Cyfeirif | Dyddiad derbyn y gwyn | Categori cwyn | Math o gwyn | Manylion y gwyn | Cam gweithredu | Datrysiad |
|---|---|---|---|---|---|---|
| PCPCOM1/201718 | 15/06/2017 | Comisiynydd | Cyffredinol | Mae'r gwyn yn ymwneud â negeseuon trydar gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd (PCC), a ystyriwyd yn dramgwyddus a difriol gan yr achwynydd | Mater ar gau | Mae'r Swyddog Arweiniol o'r farn bod ymddygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd yn ymhriodol ac ymddiheurodd y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i'r achwynydd. |
| PCPCOM2/201718 | 21/07/2017 | Comisiynydd | Cyffredinol | Mae'r gwyn yn ymwneud ag ymddygiad y Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'i ddefnydd o'r cyfryngau cymdeithasol ar 15/07/17, pan dreuliodd y Comisiynydd y dydd yn profi sut beth oedd bod yn ddigartref yn Wrecsam. | Mater ar gau | Mae'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd a'r achwynydd wedi derbyn bod methiannau ac maent rŵan wedi symud ymlaen. |
| PCPCOM3/201718 | 10/01/2018 | Comisiynydd | Cyffredinol | Mae'r gwyn yn ymwneud ag amhroffesiynoldeb y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wrth ymdrin â chwyn ynglŷn â Swyddfa Annibynnol Ymddygiad yr Heddlu (IOPC) | Dim cam gweithredu | Mae'r Swyddog Arweiniol o'r farn bod y Comisiynydd Heddlu a Throsedd wedi gwneud ei ddyletswydd statudol trwy ystyried y gwyn, ond nad yw o fewn ei gylch gwaith i wyrdroi penderfyniadau gan yr IOPC; dim camau pellach, gan ei fod yn gamddefnydd o'r weithdrefn gwyno, fel y nodwyd yn y Rheoliadau. |
| PCPCOM4/2017178 | 15/02/2018 | Comisiynydd | Cyffredinol | Mae'r gwyn yn ymwneud â methiant y Comisiynydd Heddlu a Throsedd i ateb llythyrau gan yr achwynydd | Dim cam gweithredu | Nid oes gan y Panel gylch gwaith i edrych ar deilyngdod penderfyniadau'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd mewn perthynas â hyn ac felly ni all weithredu fel corff apêl yn ei erbyn. Dim camau pellach, gan ei fod yn gamddefnydd o'r drefn gwyno fel y nodwyd yn y Rheoliadau. |
| PCPCOM5/2017/18 | 19/03/2018 | Comisiynydd | Cyffredinol | Mae'r gwyn yn ymwneud â sylwadau a wnaed gan y Comisiynydd Heddlu a Throsedd ar gyfryngau cymdeithasol a mater diogelu. | Mater ar gau | Cyfarfu'r Is-Bwyllgor Cwynion ar 23/05/18 ac argymhellwyd:<br>• Y dylai'r Comisiynydd Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru fod wedi gwneud atgyfeiriad i Heddlu Gogledd Cymru o ran y negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol.<br>• Y dylai'r Polisi Gohebiaeth gael ei ddiwygio fel bod unrhyw ddigwyddiad o drosedd yn cael eu hadrodd i'r Heddlu heb gymeradwyaeth yr awdur.<br>• Bod Mr Jones yn dileu unrhyw gyfeiriadau at ei rôl fel Comisiynydd yr Heddlu a Throsedd o'i dudalennau cyfryngau cymdeithasol personol. |
| PCPCOM6/201718 | 21/03/2018 | Comisiynydd | Cyffredinol | Mae'r gwyn yn ymwneud ag archwiliad heddlu | Dim cam gweithredu | Dim camau pellach gan nad yw o fewn cylch gwaith y Panel Heddlu a Throsedd, ac yn gamddefnydd o'r Rheoliadau. |

POLICE AND CRIME PANEL
PANEL HEDDLU A THROSEDD

# PANEL HEDDLU A THROSEDD GOGLEDD CYMRU

## RHAGLEN GWAITH I'R DYFODOL



| | |
|---|---|
| Swyddog Cyswllt: | Dawn Hughes |
| | Uwch Swyddog Gwasanaethau Pwyllgorau<br>Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy<br>Bodlondeb<br>Conwy<br>LL28 5NF |
| E-bost: | dawn.hughes@conwy.gov.uk |
| Rhif ffôn: | 01492 576061 |

| Date | Subject | Responsible Officer (including e-mail address) |
|---|---|---|
| | | |
| **3 Rhagfyr 2018** | **Diweddariad ar y Gyllideb ar gyfer 2018/19** | Kate Jackson, Chief Finance Officer (OPCC) |
| **3 Rhagfyr 2018** | **Diweddariad ar Gyllideb Panel Heddlu a Throsedd Gogledd Cymru ar gyfer 2018/19** | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol a Chynghorydd Cyfreithiol |
| **3 Rhagfyr 2018** | **Adolygiad blynyddol o aelodaeth y Panel Heddlu a Throsedd**<br>Sicrhau bod Aelodau Etholedig y Panel, hyd y gellir, yn adlewyrchu cydbwysedd gwleidyddol a demograffig cymunedol gogledd Cymru. | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol a Chynghorydd Cyfreithiol |
| **3 Rhagfyr 2018** | **Fframwaith Comisiynu 2018/19** | Arfon Jones, Police and Crime Commissioner |
| **3 Rhagfyr 2018** | **Derbyn Adroddiad Blynyddol y Comisiynydd ar gyfer 2017/18** | Arfon Jones, Police and Crime Commissioner |
| **28 Ionawr 2019** | **Cyllideb ac Adroddiad Gosod Praesept 2019/20**<br>Ystyried praesept arfaethedig ar gyfer 2019/20 | Arfon Jones, Police and Crime Commissioner |
| **25 Mawrth 2019 TBC** | **Diweddariad gan y Prif Gwnstabl** | Prif Gwnstabl, Mr. Carl Foulkes. |
| | | |
| **TBC** | **Adolygu Cylch Gorchwyl y Panel Heddlu a Throsedd**<br>Adolygu’r Cylch Gorchwyl i sicrhau ei fod yn addas i’w bwrpas. | Richard Jarvis, Swyddog Arweiniol a Chynghorydd Cyfreithiol |